



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

# Adolygiad o'r Gallu ar gyfer, a'r Modd y Cyflenwir Hyfforddiant Chwarae yng Nghymru

Ebrill 2010

David Dallimore a Pam Edwards

**melyn**  
*Consulting*

# Cynnwys

CYFLWYNIAD.....	3
Y BROSES ADOLYGU .....	3
METHODOLEG.....	4
1. Y CYD-DESTUN POLISI .....	6
2. DARPARIAETH CHWARAE A GWAITH CHWARAE YNG NGHYMRU.....	9
3. ASESIAID O ANGHENION Y GWEITHLU YN AWR AC YN Y DYFODOL .....	16
4. MODELAU HYFFORDDIANT CHWARAE CYFREDOL .....	28
5. ARGAELEDD A HYGYRCHEDD HYFFORDDIANT A CHYMWYSTERAU CHWARAE .....	38
6. FFRAMWAITH CYMWYSTERAU GWAITH CHWARAE .....	47
7. CRYNODEB AC ARGYMHELLION.....	51
ATODIAD 1: CYMWYSTERAU A DDERBYNNIR AR GYFER GWEITHWYR CHWARAE 2009-2010 (SKILLSACTIVE).....	60

## Cyflwyniad

Mae'r Mesur Plant a Theuluoedd yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu'n ddigonol ar gyfer chwarae plant. Bydd y Mesur hwn yn arwain at fframwaith cyfreithiol arloesol ar gyfer chwarae plant nas gwelwyd erioed o'r blaen yn unrhyw le yn y byd, gan olygu y bydd Cymru ar flaen y gad o ran syniadau am blentynod a lle plant a phobl ifanc yn y gymdeithas yn y dyfodol; a bydd yn cyfrannu'n sylweddol at ymateb y Llywodraeth i her Erthygl 31 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Dylai'r Mesur hwn gyfrannu tuag at ddyfodol ar gyfer plant a phobl ifanc lle mae'r holl fannau cyhoeddus yn cael eu hystyried yn fannau chwarae posib, lle caiff plant a phobl ifanc eu gweld a'u clywed yn ein cymdeithas yn chwarae'n rhydd. Er mwyn llwyddo â gweledigaeth mor uchelgeisiol bydd angen i gymunedau Cymru brofi newid sylweddol yn safbwyntiau'r gymdeithas am, ac agweddau'r gymdeithas tuag at, wneud i hawliau plant a phobl ifanc i chwarae ddigwydd.

Rôl y gweithlu plant a phobl ifanc fydd troi'r syniadau hynny'n realiti i blant; a bydd lle allweddol bwysig i'r sector gwaith chwarae yn hyn o beth, gan fod rhaid i ddealltwriaeth y sector am ddarparu amgylchedd ar gyfer chwarae a hwyluso chwarae fod yn echelbin i weledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Y Broses Adolygu

### Nod y Prosiect

Nod y prosiect hwn fu cynnal adolygiad o hyfforddiant gwaith chwarae yng Nghymru er mwyn asesu datblygiad hyfforddiant gwaith chwarae; gwella'r modd y cyflenwir cyfleoedd chwarae yng Nghymru; ac ystyried y model gorau sydd ar gael ar hyn o bryd o ran darpariaeth.

### Amcanion

Er mwyn cyrraedd y nod, cyflawnwyd nifer o amcanion gan gynnwys;

- ymgynghori ag ymarferwyr chwarae a sefydliadau chwarae i ddatblygu dealltwriaeth am y ddarpariaeth gyfredol o ran hyfforddiant gwaith chwarae a manteision gwaith chwarae i blant a phobl ifanc;
- cyflwyno crynodeb o anghenion gweithwyr chwarae o ran hyfforddiant a chymwysterau;
- cyflwyno crynodeb o fframwaith cymwysterau ar gyfer hyfforddiant gwaith chwarae yng Nghymru;
- cynnal asesiad o'r amrywiaethau mewn cymwysterau gwaith chwarae cyfredol ac yn y proffesiwn gwaith chwarae;

- archwilio'r rôl a gyflawnir gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Hyfforddi Gweithwyr Chwarae o ran datblygu a chyflenwi cymwysterau a hyfforddiant gwaith chwarae, a oedd yn cynnwys crynodeb o ymgynghoriad â gweithwyr chwarae ac ymarferwyr ar y mater hwn.

## Methodoleg

### Ymchwil Ddesg

Cynhaliwyd elfen o ymchwil ddesg i osod yr ymchwil ddilynol mewn cyd-destun polisi ehangach. Mae hyn wedi cynnwys cyfeirio at bolisiâu Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â chwarae, megis y Mesur Plant a Theuluoedd; Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae; a strategaethau trawsbynciol ehangach ar gyfer y gweithlu megis Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, ochr yn ochr â strategaethau priodol ar lefel y DU gyfan e.e. *Quality Training, Quality Play*.

### Ymgynghori â Gweithwyr Chwarae

Anfonwyd ffurflenni arolwg dwyieithog trwy'r e-bost at 258 o weithwyr chwarae a oedd wedi ymateb yn electronig i'r Arolwg o Waith Chwarae gan Chwarae Cymru yn 2008 (ac a oedd wedi rhoi caniatâd i ni gysylltu â hwy eto yn y dyfodol) ynghyd â 51 o bobl a oedd wedi mynychu hyfforddiant chwarae dros y 12 mis blaenorol. Ar y cyfan daeth 101 o ymatebion i law trwy'r e-bost (33%).

Cysylltwyd dros y ffôn â 152 o weithwyr chwarae eraill a oedd wedi ymateb i'r Arolwg o Waith Chwarae gan Chwarae Cymru yn 2008 (ac a oedd wedi rhoi caniatâd i ni gysylltu â hwy eto yn y dyfodol) a chysylltwyd hefyd â nifer o'r rheiny a oedd wedi ymateb i'r arolwg electronig. O'r rhain, cafodd 122 gyfweiliad manwl dros y ffôn.

Roedd yr arolwg a'r cyfweiliadau dros y ffôn yn archwilio dealltwriaeth gweithwyr chwarae am y canlynol;

- hyfforddiant a chymwysterau cyfredol ym maes gwaith chwarae;
- gwaith Chwarae Cymru, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae yng Nghymru.
- canfyddiadau gweithwyr chwarae am gymwysterau chwarae cyfredol, a hyfforddiant chwarae;
- y proffesiwn gwaith chwarae;
- y modelau mwyaf hygyrch ac effeithiol ar gyfer cyflenwi hyfforddiant gwaith chwarae;
- anghenion heb eu diwallu am hyfforddiant a chymwysterau chwarae.

### **Ymgynghori â Chyflogwyr Gwaith Chwarae**

Cymerwyd sampl o'r ymatebion i'r Arolwg o Waith Chwarae yn 2008 ynghyd â detholiad o gyflogwyr gwaith chwarae a gymerwyd o blith darparwyr gofal plant all-ysgol sydd wedi'u cofrestru ag AGGCC a darparwyr chwarae mynediad agored.

Cafodd cyflogwyr gyfweiliadau dros y ffôn i ymchwilio i'w dealltwriaeth am: hyfforddiant a chymwysterau cyfredol ym maes gwaith chwarae; Gwaith Chwarae Cymru, a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae yng Nghymru. Yn ogystal, gofynnwyd cwestiynau i gael dealltwriaeth am ganfyddiadau cyflogwyr gweithwyr chwarae am y cymwysterau chwarae cyfredol, hyfforddiant chwarae cyfredol a'r proffesiwn gwaith chwarae; ac i asesu'r anghenion sydd heb eu diwallu am hyfforddiant a chymwysterau chwarae.

### **Ymgynghori â Rhanddeiliaid / Darparwyr Hyfforddiant**

Cysylltwyd â'r prif randdeiliaid ym maes Hyfforddiant Chwarae gan gynnwys: Chwarae Cymru; SkillsActive (Cyngor Sgiliau Sector y DU ar gyfer Chwarae); a Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Yn ogystal, cysylltwyd â phob un o'r 10 o brosiectau Isadeiledd Chwarae a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr (Rhaglen Chwarae Plant) a chawsant gyfweiliad i drafod datblygiad partneriaethau chwarae rhanbarthol a'r effaith ar hyfforddiant a chymwysterau o ganlyniad i gynlluniau ar gyfer Prosiectau Chwarae yn yr Ail Gylch.

Cysylltwyd â phob un o'r darparwyr hyfforddiant chwarae y gwyddys amdanynt er mwyn: canfod ystod yr hyfforddiant gwaith chwarae sy'n cael ei gyflenwi yng Nghymru ar hyn o bryd; canfod nifer y gweithwyr chwarae sy'n derbyn hyfforddiant ar hyn o bryd; cynnal asesiad o'r gallu cyffredinol ar gyfer hyfforddiant gwaith chwarae ledled Cymru; asesu nifer y rhai sy'n derbyn hyfforddiant gwaith chwarae o'i gymharu â'r gallu.

### **Ymgynghori ag Awdurdodau Lleol**

Cafodd y swyddog arweiniol ar gyfer datblygu chwarae ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru gyfweiliad dros y ffôn i ganfod beth yw cyflwr y ddarpariaeth chwarae ym mhob ardal ar hyn o bryd; canfod rôl yr awdurdod lleol o ran cyflenwi, cyllido neu gefnogi hyfforddiant chwarae; ac ymchwilio i unrhyw gynlluniau i ymateb i'r ddyletswydd i sicrhau darpariaeth chwarae fel a nodir yn y Mesur Plant a Theuluoedd (2010).

## 1. Y Cyd-destun Polisi

- 1.1 Er mwyn deall Hyfforddiant Chwarae, a ffurf y sector chwarae yn y dyfodol, mae'n bwysig archwilio polisi cyfredol ac ystyried ffactorau eraill a allai arwain at newid yn y galw am hyfforddiant chwarae.

### **Polisi Chwarae**

- 1.2 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gwbl ymrwymedig i hybu chwarae plant a hi oedd y weinyddiaeth gyntaf yng ngwledydd Prydain i lunio Polisi Chwarae a datblygu strategaeth. Roedd Polisi Chwarae Llywodraeth y Cynulliad (2002) yn egluro'i chydabyddiaeth i bwysigrwydd allweddol chwarae ac ymrwymiad y dylai cymdeithas geisio pob cyfle i gefnogi chwarae ac i greu amgylchedd sy'n meithrin chwarae.
- 1.3 Roedd Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae Llywodraeth y Cynulliad (2006) yn nodi sut y byddai'r egwyddorion yn y Polisi Chwarae'n cael eu rhoi ar waith. Roedd wedi'i seilio ar y nodau a'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn natganiad strategol Llywodraeth y Cynulliad 'Plant a Phobl Ifanc: Hawliau ar Waith'. Roedd y Cynllun Cyflawni'n nodi nifer o ymrwymadau mewn perthynas â'r Gweithlu Chwarae. Roedd y rhain yn cynnwys;
- a) Y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i roi cymorth i ddatblygu rôl unigryw gweithwyr chwarae, er mwyn hwyluso chwarae plant yn y gymuned:
  - b) Y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru'n sicrhau datblygiad hyfforddiant a chymwysterau Addysg Uwch sy'n briodol i anghenion y rheiny y mae'u rôl yn cyfuno gwaith chwarae, gwaith blynyddoedd cynnar, datblygu cymunedol a gwaith ieuenctid:
  - c) Y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gydnabod bod y rolau'n dod yn fwyfwy cydradd, yn rhoi cymorth i integreiddio tâl ac amodau gwaith chwarae o fewn amodau gwasanaeth a graddfeydd cyflogau'r Cydbwyllgor Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid a Gwaith Cymunedol:
  - d) Y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi'r datblygiad hwn i gynhyrchu ystod newydd o ddeunyddiau a chyrsgiau hyfforddi ym maes gwaith chwarae i ddiwallu anghenion gweithwyr chwarae yn yr unfed ganrif ar hugain.
- 1.4 Bu cynnydd mewn perthynas â'r ymrwymadau hyn mewn sawl cyfeiriad;

## ***Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae yng Nghymru***

- 1.5 Wrth gyflawni nifer o'r ymrwymadau i roi cymorth i ddatblygu rôl unigryw gweithwyr chwarae fel a nodir yng Nghynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a SkillsActive yn rhoi cymorth ariannol tan 2011 i ddatblygu Canolfan Genedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae yng Nghymru, a letyir gan Chwarae Cymru ond a gyfarwyddir gan Bwyllgor o randdeiliaid o bob rhan o'r sector.
- 1.6 Mae'r ganolfan yn darparu isadeiledd ar gyfer hyfforddiant ac addysg ym maes gwaith chwarae: datblygu a chyflenwi cymwysterau gwaith chwarae a datblygiad proffesiynol parhaus; cydlynu'n strategol y modd y cyflenwir addysg a hyfforddiant gwaith chwarae; hyfywedd a chynaliadwyedd rhaglenni dysgu ym maes gwaith chwarae; cyfleoedd rhwydweithio ar gyfer cyflogwyr, hyfforddwyr ac aseswyr; lleadaenu gwybodaeth, cyfathrebu a sicrhau ansawdd ar gyfer cyflogwyr yng Nghymru.
- 1.7 Rôl allweddol y ganolfan yw datblygu a sefydlu dysgu a sgiliau Gwaith Chwarae gyda ac ar gyfer cyflogwyr yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cyflenwi rhaglenni gwaith chwarae mewn addysg bellach ac uwch, a datblygiad proffesiynol parhaus sydd wedi'i deilwra i gwrdd ag anghenion cyflogwyr.

## ***Rhaglen Chwarae Plant y Gronfa Loteri FAWR***

- 1.8 Mae nodau'r rhaglen Chwarae Plant yn cynnwys: datblygu mannau chwarae newydd i blant yn eu cymunedau; datblygu cyfleoedd chwarae sy'n darparu lle i blant ddewis sut maent yn chwarae; a datblygu cyfleoedd chwarae mynediad agored sy'n cael eu staffio.
- 1.9 Dros ddau gylch cyllido, bydd y Rhaglen yn rhoi cymorth i ddau fath o brosiectau strategol; Prosiectau Isadeiledd a Phrosiectau Chwarae.
- 1.10 Roedd cydnabyddiaeth bod nifer o ardaloedd yng Nghymru heb y gallu i wneud cais am brosiectau chwarae ar unwaith a bod angen datblygu'r isadeiledd lleol i gyflenwi cyfleoedd chwarae. Mae'r prosiectau Isadeiledd yn gweithio gyda darparwyr statudol a gwirfoddol i ganfod faint o allu sydd ar hyn o bryd, canfod faint o angen sydd a rhoi cymorth i ddatblygu cynigion strategol i gwrdd â'r anghenion hynny. Cafodd 10 o brosiectau o'r fath, a'r rheiny'n werth tua £2.5 miliwn, eu cyllido yn y cylch cyntaf dros Gymru gyfan. Mae rhai'n gwasanaethu ardaloedd awdurdodau lleol unigol, ond mae'r rhan fwyaf yn gwasanaethu ardal ehangach. Cânt eu harwain yn bennaf gan y Trydydd Sector, er bod nifer fechan yn cael eu harwain gan awdurdodau lleol. Ar ôl rhai anawsterau cychwynnol, mae'r prosiectau hyn bellach yn magu momentwm ar y cyfan ac yn darparu ffocws strategol ar gyfer darpariaeth chwarae yn yr ardaloedd a wasanaethir ganddynt. Gan gofio am y ddyletswydd i gydweithio, gall

cymdeithasau chwarae rhanbarthol gyflawni rôl hollbwysig o ran sicrhau bod darparwyr chwarae gwirfoddol yn gallu bod â llais a gweithredu newid wrth weithio gydag asiantaethau eraill. Gall fod rôl iddynt hefyd o ran asesu anghenion hyfforddiant lleol.

### ***Y Mesur Plant a Theuluoedd***

1.11 Cafodd ymrwymiad Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae i osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer anghenion chwarae plant ei ddiogelu mewn deddfwriaeth fel rhan o'r Mesur Plant a Theuluoedd (2010). Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd i;

- Asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae
- Sicrhau darpariaeth chwarae ddigonol (o ran maint ac ansawdd)
- Cyhoeddi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae.

1.12 Mae gan y ddyletswydd y potensial i gyfrannu at gynnydd sylweddol o ran faint o waith chwarae sy'n digwydd a thrwy hynny faint o hyfforddiant chwarae sy'n digwydd. Fodd bynnag, bydd y goblygiadau'n dibynnu i raddau helaeth ar y modd y datblygir rheoliadau sy'n diffinio cyfleoedd chwarae 'digonol'.




## 2. Darpariaeth Chwarae a Gwaith Chwarae yng Nghymru

### Y Gweithlu Chwarae

- 2.1 Defnyddiwyd y term gweithiwr chwarae trwy'r ddogfen hon i ddynodi person sy'n defnyddio chwarae fel rhan o'i waith neu weithgarwch gwirfoddoli; neu rywun sy'n rheoli neu'n cydlynu chwarae. Cafodd ystod o bobl a oedd yn eu hystyried eu hunain yn weithwyr chwarae wahoddiad i ymateb i ymgynghoriad a fyddai'n goleuo'r Adolygiad hwn. Roeddent yn cynnwys pobl sy'n gweithio mewn ystod o feysydd galwedigaethol ac i amrywiaeth o gyflogwyr.
- 2.2 Mae'n anodd asesu union faint a chwmpas y gweithlu chwarae'n gywir gan fod gweithwyr chwarae'n cael eu cyflogi ac yn gweithredu ar draws ystod eang o sectorau a chyflogwyr. Roedd ymchwil Cyngor Gofal Cymru yn 2006 i'r gweithlu chwarae, blynyddoedd cynnar a gofal plant<sup>1</sup> yn amcangyfrif ei bod yn debygol bod dros 5,000 o weithwyr chwarae yng Nghymru.
- 2.3 Mae chwarae fel proffesiwn sy'n datblygu'n cynnwys pobl mewn amrywiaeth eang o rolau, mewn swyddi â gwahanol gyfrifoldebau ac mewn ystod o leoliadau. Bu i'r arolwg o weithwyr chwarae<sup>2</sup> gipio'r amrywiaeth hon er mwyn datblygu darlun eglurach o'r gweithlu. I roi dadansoddiad cymharol o rolau cyffredinol y rheiny sy'n gysylltiedig â chwarae, gofynnwyd i ymatebwyr ddisgrifio'u swydd neu'u gweithgarwch gwirfoddoli dan nifer o benawdau bras.

**Ffigur 1: Rolau gwaith chwarae (n=451)**



<sup>1</sup> Cyngor Gofal Cymru (2006) Mesur a Mapio'r sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae

<sup>2</sup> Melyn Consulting (2008) Adroddiad Datblygu'r Gweithlu ar ran Chwarae Cymru

- 2.4 O'r 451 o bobl a ymatebodd i'r mater hwn, roedd y mwyafrif (62%) yn eu disgrifio'u hunain yn Weithwyr Chwarae. O'r gweddill, roedd bron chwarter yn rheolwyr ar weithwyr chwarae eraill neu'n gysylltiedig â datblygu chwarae.
- 2.5 O fewn y 3% o bobl a osododd eu hunain yn y categori 'Arall' roedd y rheiny sy'n gysylltiedig â gweinyddu lleoliadau chwarae, rheolaeth strategol, gwaith ieuencid a gwasanaethau gwybodaeth. Er na fyddai rhai o'r bobl hyn fel arfer yn cael eu cynnwys mewn diffiniad o waith chwarae, mae eu parodrwydd i gymryd rhan yn yr arolwg yn awgrymu bod ganddynt ymdeimlad o berthyn i'r sector chwarae. Mae eu hymatebion hefyd yn amlygu'r angen i archwilio gwaith chwarae mewn ffordd ehangach o lawer, sy'n cynnwys ystod o alwedigaethau a phroffesiynau sydd â'r potensial i ddylanwadu ar chwarae plant ac sydd felly'n gofyn am ddealltwriaeth am werthoedd chwarae. Mae'r rhain yn cynnwys pobl sy'n gweithio ym meysydd cynllunio, trafndiaeth, yr heddlu, gwasanaethau amgylcheddol, chwaraeon a hamdden, addysg, y blynyddoedd cynnar a gofal plant, iechyd a datblygu cymunedol. Bydd dehongli'r Mesur Plant a Theuluoedd yn ei ystyr ehangaf yn golygu bod angen ystyried darpariaeth chwarae trwy ddull cyfannol a bydd hyn yn galw am yr ystod hon o ymgysylltu, lle bydd hyfforddiant yn fater allweddol bwysig.

### ***Darpariaeth Chwarae yng Nghymru***

- 2.6 Darperir cyfleoedd chwarae yng Nghymru gan ystod eang o sefydliadau sy'n cwmpasu nifer o sectorau. Mae'r rhain yn cynnwys gofal plant all-ysgol; cynlluniau chwarae yn y gwyliau; chwarae antur; darpariaeth chwarae mynediad agored; a chwarae cymunedol.
- 2.7 Yn ôl AGGCC<sup>3</sup>, roedd 539 o glybiau all-ysgol ledled Cymru yn 2009. Roedd y rhain wedi'u cofrestru ar gyfer mwy na 18,000 o leoedd sydd, yn seiliedig ar gyfraddau llenwi cyfartalog, yn golygu y darperir ar gyfer dros 30,000 o blant yng Nghymru, sy'n gyfystyr â thua 8.5% o'r boblogaeth o blant rhwng 5 a 14 oed. Yn ogystal â hynny, roedd 545 o feithrinfeydd dydd, y mae nifer ohonynt yn cynnig gofal plant a chyfleoedd chwarae i blant o oedran ysgol.
- 2.8 O ran darpariaeth chwarae mynediad agored gofrestredig roedd cyfanswm o 80 o leoliadau wedi'u cofrestru ar gyfer 3,500 o leoedd. Fodd bynnag, gan nad yw'n ofynnol i leoliadau gofrestru os ydynt yn darparu ar gyfer plant dros wyth yn unig, mae gwir gyfanswm y ddarpariaeth chwarae mynediad agored yn llawer uwch. Mae hyn yn gadael swm mawr o ddarpariaeth chwarae na ellir ei fesur.
- 2.9 Er bod gofal y tu allan i'r ysgol yn cael ei ddarparu gan y sector preifat a gwirfoddol yn bennaf, mae'r rhan fwyaf o chwarae mynediad agored yn cael ei gyflenwi a'i gomisiynu gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae darpariaeth

<sup>3</sup> Darpariaeth gofal plant gofrestredig a chwarae mynediad agored Medi 2009

chwarae'n amrywio'n eang o un sir i'r llall. Fel rhan o'r adolygiad hwn, cysylltwyd â phob un o'r 22 awdurdod lleol i gael darlun o'r modd y cyflenwir chwarae mynediad agored a'r modd y datblygir polisïau a strategaethau chwarae ledled Cymru.

2.10 Mewn rhai awdurdodau, nid oes unrhyw un sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gwasanaethau chwarae, felly fe adnabuwyd cynrychiolydd a oedd â rhyw fath o gysylltiad trwy grŵp llywio, er enghraifft, yn yr awdurdod. Mewn achosion eraill, mae'r ddarpariaeth hyfforddiant ar gyfer yr awdurdod yn gyfrifoldeb sy'n gorwedd gydag unigolyn â chylch gorchwyl eang ar draws y gwasanaethau plant a phobl ifanc. O hyn, gellir llunio darlun o amrywiaeth y patrymau cyflenwi, a'u rhannu'n fras i bedwar grŵp:

- Mae'r Awdurdod yn cyflenwi gwasanaethau trwy, neu'n ychwanegol â chyllid isadeiledd Cylch 1 (2 Awdurdod Lleol)
- Mae'r Awdurdod yn cyflenwi gwasanaethau mewn partneriaeth gyda gwasanaethau gwirfoddol a gwirfoddolwyr (10 Awdurdod Lleol)
- Mae'r Awdurdod yn cyflenwi rhai gwasanaethau ac yn rhoi eraill ar gomisiwn allanol i bartneriaid (6 Awdurdod Lleol)
- Mae'r Awdurdod yn rhoi'r holl wasanaethau chwarae ar gomisiwn allanol i sefydliad â chyllid isadeiledd (4 Awdurdod Lleol)

2.11 Dywedodd un awdurdod lleol sydd ar hyn o bryd yn rhoi rhai o'i wasanaethau ar gomisiwn i sefydliadau sy'n bartneriaid ei fod yn bwriadu cynnal ymarfer ailstrwythuro llawn y flwyddyn nesaf a rhoi ei wasanaethau chwarae i gyd ar gomisiwn allanol.

2.12 Dim ond un awdurdod lleol oedd yn cyflogi mwy na 10 aelod o staff llawn-amser yn ei wasanaeth chwarae (Sir y Fflint) mewn amrywiaeth o rolau; mae tri awdurdod yn cyflogi 4 neu 5 aelod o staff llawn-amser yn eu huned chwarae; mae hanner yr awdurdodau lleol (12/22) yn cyflogi 1 neu 2 o weithwyr llawn-amser mewn rôl strategol i ddatblygu darpariaeth chwarae yn yr ardal a threfnu hyfforddiant. Lle mae'r awdurdod yn rhoi'r holl wasanaethau chwarae ar gomisiwn i ddarparwr allanol, fel arfer nid oes aelod o staff yn yr awdurdod sydd â chyfrifoldeb am chwarae, er bod gwasanaethau chwarae fel arfer yn eistedd mewn adran arall o'r Cyngor, megis y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc (PPPhI), Chwaraeon a Hamdden neu'r Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Fe fynegodd rhai swyddogion y farn ei bod o gymorth pan fo gwasanaethau chwarae dan ymbarél PPPhI er mwyn cael mynediad at gyllid ar gyfer hyfforddiant, ond hefyd i godi proffil gwaith chwarae gydag eraill sy'n gweithio gyda phlant.

2.13 Ar hyn o bryd mae cyswllt amlwg rhwng awdurdodau lleol a rhaglen Chwarae Plant y Gronfa Loteri FAWR. Cylch gorchwyl prosiectau yng Nghylch 1 fu

datblygu isadeiledd ar gyfer darpariaeth a hyfforddiant chwarae sy'n gweithio'n dda o fewn yr ardal lleol. Er bod cwpl o brosiectau isadeiledd yn benodol i un awdurdod, mae'r mwyafrif o'r prosiectau isadeiledd hyn yn gweithio mewn dwy neu dair sir i roi cymorth i'r gwasanaethau.

2.14 Gofynnwyd i awdurdodau lleol a oes strategaeth chwarae a chynllun cyflawni ar waith ganddynt:

- Mae gan 15 awdurdodau lleol Strategaeth Chwarae
- Mae Cynllun Datblygu Chwarae ar waith mewn 13 o awdurdodau lleol
- Mae gan 6 awdurdod lleol Strategaeth Chwarae ddrafft
- Mae gan 5 awdurdod lleol Gynllun Datblygu Chwarae drafft
- Mae 3 awdurdod lleol heb Gynllun Datblygu Chwarae

### ***Darpariaeth Chwarae Awdurdodau Lleol***

2.15 Er bod lefel y staffio ar gyfer chwarae'n wahanol iawn rhwng pob awdurdod lleol, nid yw nifer y staff chwarae o anghenraid yn adlewyrchu faint o chwarae sy'n digwydd yn yr ardal. Lle mae'r awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth i roi cymorth i, neu gael cymorth gan grwpiau gwirfoddol sydd â'u cyllid eu hunain, gall fod swm amhenodol a mawr o ddarpariaeth chwarae o wahanol fathau'n digwydd. Lle mae'r cyngor yn rhoi darpariaeth chwarae ar gomisiwn i ddarparwr allanol trwy gytundebau lefel gwasanaeth, mae'n anorfod bod hyn yn ddibynnol ar y cyllid y mae'r cyngor yn gallu ei sicrhau. Yn y ddau senario yma, fe soniodd swyddogion bod y sector chwarae ar y cyfan yn teimlo'i bod yn fwy cynhyrchiol pan cynghorau'n datblygu darpariaeth chwarae gymunedol a bod awdurdodau lleol, mewn rhai achosion, yn arfer gormod o reolaeth o ran pa wasanaethau y dylid eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc.

2.16 Gellir ystyried hefyd bod arweiniad cryf gan yr awdurdod lleol yn fanteisiol i ddatblygu darpariaeth chwarae: yn Wrecsam er enghraifft, mae tîm mawr o staff llawn-amser a rhan-amser. Mae gweithwyr chwarae nid yn unig yn cyflenwi gwasanaethau chwarae ond maent hefyd yn rhoi cymorth i gymunedau sefydlu'u darpariaeth eu hunain lle y bo'n bosib. Maent yn amcanu at godi proffil chwarae trwy lansio'u strategaeth chwarae ddiweddaraf yn gyhoeddus ac maent yn sefydlu fforwm chwarae lleol a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Blynnyddoedd Cynnar, Cynllunio a Datblygu Economaidd, y Gwasanaeth Ieuentid, Cyfiawnder Ieuentid a sectorau gwirfoddol priodol, megis chwarae antur, anghenion arbennig ac anabledau. Mewn cyferbyniad, mynegwyd y farn hefyd, lle roedd awdurdod lleol yn cyflenwi llawer o ddarpariaeth chwarae, bod hynny'n gallu digwydd ar draul datblygu'r sector gwirfoddol. Meddai un swyddog ar brosiect isadeiledd: "*Nid oes siawns o gwbl i fudiadau gwirfoddol eto.*"

- 2.17 Fe wnaeth y rheiny sy'n gweithio ar lefel strategol a datblygiadol mewn perthynas â darpariaeth chwarae ddisgrifio'r anawsterau sy'n gysylltiedig â sefydlu modelau cyflenwi a hyfforddiant sy'n gweithio mewn gwahanol rannau o Gymru – cymunedau gwledig sy'n denau eu poblogaeth o'u cymharu â dinasoedd, trefi ag ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol sy'n denu cyllid ychwanegol ochr yn ochr ag ardaloedd nad ydynt yn denu cyllid ychwanegol ac sy'n ei chael yn anodd cyflenwi darpariaeth chwarae. Yn Sir Fynwy mae'r awdurdod yn ei chael yn anodd cyflenwi gwasanaethau chwarae a chael mynediad at hyfforddiant chwarae perthnasol. Mae hyn yn rhannol am fod y sir yn ffyniannus ac am nad yw'n gymwys i elwa o fentrau cyllido ychwanegol. Mae'n gobeithio y bydd arian Loteri yng Nghylch 2 yn gwneud "gwahaniaeth mawr" i gyllid a'r ddarpariaeth, oherwydd ar hyn o bryd y teimlad yw nad yw'n gallu gwasanaethu plant yn y gymuned leol yn ddigonol.
- 2.18 Yng Nghonwy mae swm cymharol fach o ddarpariaeth chwarae'n digwydd ar hyn o bryd: chwaraeon trwy ganolfannau hamdden yn ystod gwyliau'r haf a darpariaeth gaeedig gyfyngedig trwy Ganolfannau Plant Integredig a gyllidir gan y rhaglen Dechrau'n Deg. Mae Fforwm Chwarae Gogledd Orllewin Cymru o'r farn ei fod ar fin cymryd "camau breision" trwy'r prosiect isadeiledd, gan sefydlu rhwydweithiau, partneriaethau lleol a rhoi cymorth i fudiadau chwarae gwirfoddol a hyfforddi'r gweithlu lleol. Ei nod yw datblygu gweithlu peripatetig sy'n gweithio mewn cymunedau gwledig i ddarparu cyfleoedd chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, fe ddywedodd y dylai 80% o'r adnoddau gael eu gwario nid ar ddarparu chwarae, ond ar weithio gyda rhieni, ysgolion a chymunedau i ddileu'r rhwystrau i chwarae. Gellir gweld enghraifft fyw o'r math hwn o arfer ar waith yn Sir Benfro sydd â phocedi o amddifadedd a chymunedau gwledig hefyd. Fe ddisgrifiodd y Swyddog Datblygu Prosiectau Plant y ddarpariaeth yno fel a ganlyn:
- Mae'r ddarpariaeth chwarae symudol yn weddol helaeth ledled y sir, gyda pheth darpariaeth ar safleoedd penodol.
  - Go Play – prosiect y tu allan i oriau arferol mewn ysgolion, hyfforddi staff mewn ysgolion (staff amser cinio, cynorthwywyr athrawon) i ddatblygu hyn.
  - Chwarae yn y Parc – mynediad agored, ceidwaid chwarae. Hyfforddi cymunedau i ddatblygu hyn (â chyllid Cymunedau'n Gyntaf)
  - Chwarae ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol – mae cynlluniau ar gyfer chwarae cynhwysol a chyfyngol yr haf hwn.
- 2.19 Dywedodd nifer o awdurdodau lleol eu bod yn gorfod cwtogi ar y gwariant ar ddarpariaeth chwarae dros y flwyddyn nesaf oherwydd toriadau yn eu cyllideb, a'u bod naill ai'n methu â thalu i'w staff tymhorol eu hunain, neu'n methu â chomisiynu gwasanaethau. Dywedodd Pen-y-bont ar Ogwr bod "toriadau enfawr yn y gyllideb" ar gyfer darpariaeth brif-ffrwd, sy'n golygu eu bod yn gallu

cynnig llai o ran prosiectau cymunedol a darpariaeth symudol. Dywedodd Gwynedd: “*Mae toriadau eisoes wedi bod yn ein cyllideb chwarae a disgwylir toriadau pellach y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn golygu y bydd cynlluniau yn y gwyliau’n cynnig llai o oriau, gyda llai o staff*”. Dywedodd mwy nag un awdurdod eu bod yn dioddef prinder staff sydd wedi’u hyfforddi i Lefel 3 (nid dim ond mewn Gwaith Chwarae) a’u bod yn gorfod cwtogi ar eu cynlluniau chwarae yn y gwyliau neu eu dileu’n gyfan gwbl am nad oeddent yn gallu ateb y gofynion ar gyfer cofrestru.

### **Cyllid ar gyfer Chwarae**

- 2.20 Er nad yw’n uniongyrchol gysylltiedig â’r Adolygiad hwn, mae’n bwysig ystyried cyllid ar gyfer darpariaeth chwarae gan fod cysylltiad uniongyrchol rhwng swm y ddarpariaeth a’r cyflenwad o swyddi mewn gwaith chwarae ac felly’r galw am hyfforddiant.
- 2.21 Anaml y daw’r cyllid ar gyfer gwasanaethau chwarae mynediad agored yn gyfan gwbl trwy gyllidebau craidd awdurdodau lleol; yn hytrach Cymorth, Dechrau’n Deg, Cymunedau’n Gyntaf, a Chronfa’r Loteri Fawr sy’n darparu’r rhan fwyaf o’r cyllid cyfredol a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i ddarparu neu gomisiynu chwarae. Roedd nifer o’r swyddogion mewn awdurdodau lleol y rhoddwyd cyfweiliad iddynt yn teimlo bod hyn yn adlewyrchu agwedd eu cyngor tuag at y sector chwarae a’i bwysigrwydd i uwch swyddogion o ran blaenoriaethau cyllido. Er enghraifft, dywedodd un swyddog bod ei awdurdod wedi bod â chynlluniau drafft i greu uned chwarae am y chwe blynedd ddiwethaf, a oedd yn “rhwystredig iawn” i’r rheiny a oedd yn ymrwymedig i ddarpariaeth chwarae. Dywedodd nad yw’r uwch reolwyr o anghenraid yn gweld beth yw’r gwahaniaeth rhwng darpariaeth chwarae ar y naill law a chwaraeon neu ofal plant ar y llaw arall a’u bod “*yn hynod ddi-glem ynghylch yr hyn ydyw*”. Dywedodd un arall: “*Nid yw uwch swyddogion yr awdurdod lleol o anghenraid yn deall gwaith chwarae ...felly mae angen iddynt ymgynghori’n fwy â phlant a gweithwyr chwarae*”. Dywedodd ymatebydd arall nad oedd ei awdurdod lleol wir yn deall bod angen i rôl swyddogion chwarae fod yn strategol yn hytrach nag yn un sy’n ymwneud â darparu “*gwibdeithiau a chylchoedd chwarae*” ac ynghyd â’r safbwynt hwn roedd diffyg cefnogaeth i’r swydd. Dywedodd un arall: “*Ar lefel strategol, rydym am fod â gweithlu o ansawdd ond nid oes cyllid i dalu amdanynt a’u hyfforddi.*” Gallai’r agweddau hyn olygu heriau sylweddol o ran cyflawni’r dyletswyddau yn y Mesur Plant a Theuluoedd.
- 2.22 Mynegodd rhai swyddogion mewn awdurdodau lleol bryder, pe bai cyllid yn cael ei roi’n uniongyrchol i’r Awdurdod ar gyfer gwaith chwarae, y byddai angen iddo gael ei ddiogelu ar gyfer gwasanaethau chwarae yn unig gan ei bod yn anorfod y byddai blaenoriaethau eraill yn mynd â chyllid o’r gronfa hon. Roedd eraill yn bryderus bod ffynonellau presennol o ran cyllid allanol yn para am

gyfnod penodol ac na fyddent yn gallu parhau â nifer o wasanaethau chwarae pe bai ffynhonnell y cyllid yn dod i ben. Mynegodd nifer eu rhwystredigaeth ynghylch natur fyrdymor y cyllid a'r diffyg ymrwymiad yr oedd hyn yn ei ddangos yn eu tyb hwy i anghenion plant a phobl ifanc yn eu hardal: *“Mae perygl y byddwn yn colli darpariaeth chwarae”* meddai un swyddog prosiect isadeiledd. Dywedodd fod angen ffynhonnell gynaliadwy ar gyfer cyllid er mwyn sicrhau nad yw'r rhwydweithiau a'r adnoddau (staff hyfforddedig a darpariaeth chwarae ar gyfer plant) a gyflwynwyd gan brosiectau isadeiledd yn cael eu colli. Meddai rheolwr un clwb all-ysgol:

*“Mae arnom angen cyllid hirdymor cynaliadwy i adeiladu gweithlu. Mae'r Llywodraeth yn taflu arian at broblemau ...cyn gynted â bod rhywbeth yn cael ei sefydlu, dair blynedd yn ddiweddarach caiff ei newid neu ei dynnu i ffwrdd.”*

### 3. Asesiad o anghenion y gweithlu yn awr ac yn y dyfodol

- 3.1 Mae'n anochel y bydd y Mesur Plant a Theuluoedd yn newid y canfyddiad am chwarae ac mae ganddo'r potensial i ehangu cwrpas dealltwriaeth pobl am chwarae. Nid oes amheuaeth y bydd y fath newid yn effeithio ar y gweithlu chwarae ei hun a'i anghenion hyfforddiant; ond mae'n bosib y ceir newid mwy sylfaenol hefyd yn y modd y bydd sectorau eraill yn ystyried chwarae, yn ymgysylltu â chwarae ac yn y pen draw yn cynnwys mwy o ddealltwriaeth am chwarae a gwerthoedd chwarae yn eu gwaith hwy eu hunain.
- 3.2 Felly mae angen i asesiad o Hyfforddiant Chwarae nid yn unig ystyried anghenion cyfredol ond mae angen iddo hefyd ragweld beth fydd natur y sector chwarae yn y dyfodol yng ngoleuni newidiadau a achoswyd nid yn unig gan y mesur, ond gan ystyried hefyd Raglen Chwarae Plant y Gronfa Loteri FAWR.

#### ***Y Proffesiwn Gwaith Chwarae***

- 3.3 Yng Nghynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae, fe nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei dyhead i weld darpariaeth chwarae sy'n cael ei staffio gan weithwyr a hyfforddwyd i ddeall sut i hyrwyddo gweithgareddau chwarae cynhwysol a ddewiswyd gan y plant o'u gwirfodd; a'r syniad o broffesiwn gwaith chwarae.
- 3.4 O fewn y diffiniad ehangaf, mae gwaith chwarae'n amlwg yn broffesiwn fel galwedigaeth sydd wedi'i seilio ar addysg a hyfforddiant arbenigol. Fodd bynnag, mae sawl agwedd ar y modd y mae proffesiynau eraill yn diffinio'u statws yn eisiau mewn gwaith chwarae. Er enghraifft, mewn meysydd megis addysgu, nyrsio neu waith cymdeithasol mae gweithwyr proffesiynol yn aelodau o gorff proffesiynol; cânt eu rheoleiddio; mae ganddynt raddau neu gymwysterau lefel uwch; ac maent yn cael datblygiad proffesiynol parhaus.

#### **Safbwyntiau Gweithwyr Chwarae**

- 3.5 Wrth ymgynghori â gweithwyr chwarae canfuwyd fod y mwyafrif<sup>4</sup> o'r rheiny sy'n gysylltiedig â gwaith chwarae'n ei ystyried yn broffesiwn ac er bod nifer o'r addurniadau sy'n gysylltiedig â statws proffesiynol yn eisiau, maent wedi'u hargyhoeddi ei fod yn haeddu statws proffesiynol.

*“Ar bob cyfrif, rydym yn gweithredu'n unol â fframwaith proffesiynol fel y mae athrawon a gweithwyr cymdeithasol. Yn hanesyddol roeddem yn dioddef oherwydd diffyg cymwysterau, strwythur a llwybrau gyrfa ond mae hynny wedi newid.”*

- 3.6 Eto mae gweithwyr chwarae hefyd yn dweud nad dyma ganfyddiad gweithwyr proffesiynol eraill amdanynt bob amser. Mae diffyg dealltwriaeth ac

<sup>4</sup> Dywedodd 51% o'r rheiny a ymatebodd eu bod yn meddwl bod Gwaith Chwarae'n broffesiwn



ymwybyddiaeth am chwarae ymhlith gweithwyr proffesiynol eraill yn golygu ei bod yn anodd i weithwyr chwarae ddadlau dros fanteision chwarae.

*“Ie, proffesiwn ydym ni ond dydw i ddim yn meddwl bod pobl eraill yn meddwl mai dyna ydym ni ac am y rheswm hwnnw rydym wedi dod ar draws problemau, er enghraifft mewn achosion amddiffyn plant lle mae pobl yn gwrthod rhannu gwybodaeth gyda ni. Maent yn fodlon ei rhannu gyda gweithwyr ieuenctid ac ysgolion ond dydyn ni ddim yn cael ein hystyried yn weithwyr proffesiynol.”*

*“Fe hoffwn feddwl bod chwarae’n broffesiwn ond wn i ddim ai dyna ganfyddiad pobl eraill amdano. Mae angen i chwarae godi’i broffil, a pheidio â rhoi gwefus-wasanaeth. Mae cryn dipyn o stigma’n gysylltiedig â byd chwarae.”*

- 3.7 Ar y cyfan, mae gan broffesiynau statws cymdeithasol uchel, gan eu bod yn uchel eu bri a’u parch yn y gymdeithas. Mae’r bri hwn yn deillio’n bennaf o’r swyddogaeth gymdeithasol uwch sy’n gysylltiedig â’u gwaith, yr ystyrir ei fod hollbwysig i’r gymdeithas gyfan. Mae’n anochel mai un broblem i Waith Chwarae fydd safbwyntiau ac agweddau’r gymdeithas tuag at bwysigrwydd chwarae ym mywydau plant a phobl ifanc.

*“Mae camargraff gyffredin i’w chael, sef ein bod yn treulio’n diwrnodau’n chwarae. Dydyn ni ddim yn cael ein cymryd o ddifrif fel proffesiwn.”*

*“Mae angen gwneud gweithwyr proffesiynol eraill yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd chwarae ac wedyn efallai y byddant yn cydnabod gwerth ein gwaith.”*

- 3.8 Roedd un mater arwyddocaol a amlygwyd yn gyson gan y gweithwyr chwarae hynny yr ymgynghorwyd â hwy’n ymwneud â’r cyflog isel a’r amodau cyflogaeth gwael. Roedd y rhain yn cael eu hystyried yn rhwystr i wneud gwaith chwarae’n broffesiwn a’i gydnabod fel proffesiwn.

*“Ydym, rydym yn gweithio i safon broffesiynol ond dydyn ni ddim yn derbyn tâl digonol nac yn cael ein gwerthfawrogi’n iawn.”*

*“Rydym yr un mor broffesiynol ond nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu mewn cyllid, sicrwydd na graddfeydd cyflogau.”*

*“Fel proffesiwn, dydyn ni ddim yn cael ein gwerthfawrogi ddigon nac yn cael tâl digonol. Does dim gwahaniaethu o gwbl rhwng gofal plant a gwaith chwarae.”*

*“Mae gwaith chwarae’n sector unigryw, ond nid yw wastad yn cael ei gydnabod ar yr un lefel â swyddi eraill, megis gwaith ieuenctid. Mae gwaith chwarae yn y rheng isaf un.”*

- 3.9 Er bod y mwyafrif o’r gweithwyr chwarae wedi dweud eu bod yn teimlo’n broffesiynol, dywedodd lleiafrif sylweddol nad oeddent yn teimlo felly. Un rhwystr posib i roi cydnabyddiaeth broffesiynol i waith chwarae yw agweddau gweithwyr chwarae eu hunain.

*“Mae llawer o bobl yn peidio â’n hystyried yn weithwyr proffesiynol. Mae’r sefyllfa’n well nag yr oedd 20 mlynedd yn ôl ond hyd yn oed o fewn ein proffesiwn dydyn ni ddim yn ein hystyried ein hunain yn weithwyr proffesiynol.”*

*“Na, mae’n ddyhead yn y sector ond ni fydd byth yn cael ei ystyried yn waith sy’n gydradd o ran bri â, dyweder, addysgu.”*

- 3.10 Roedd cydnabyddiaeth i gymwysterau gwaith chwarae ac effaith hynny ar statws proffesiynol yn thema a fynegwyd dro ar ôl tro gan y gweithwyr chwarae yr ymgynghorwyd â hwy. Er mai ychydig oedd yn amau gwerth cymwysterau gwaith chwarae, roedd argaeledd cyfyngedig cyfleoedd cyflogaeth ym myd chwarae’n gwneud iddynt ymddangos yn llai gwerthfawr.

*“Dydwyn ni ddim yn cael ein cymryd o ddifrif fel proffesiwn. Nid yw pobl yn cydnabod cymwysterau y tu allan i’r sector. Nid ydynt yn sylweddoli bod gennym sgiliau a chymwysterau trosglwyddadwy.”*

*“Na, mae gwaith chwarae’n yrfa ail ddosbarth. Mae pobl ifanc yn gweithio oriau anghymdeithasol byr iawn. Os ydynt yn ennill cymwysterau dydw i ddim yn siŵr a ydynt yn eu rhoi ar ben ffordd gan mai dim ond ar gyfer gwaith chwarae y gallant eu defnyddio. Nid ellir eu trosglwyddo i broffesiynau eraill.”*

### **Safbwyntiau cyflogwyr**

- 3.11 Roedd safbwyntiau’r cyflogwyr hynny yr ymgynghorwyd â hwy’n ranedig o ran ystyried a yw proffil gwaith chwarae wedi cael ei godi trwy fuddsoddiadau diweddar, ond roedd pawb yn cytuno bod angen hyrwyddo’r llwybr gyrfa’n fwy. Roedd y rhan fwyaf o’r farn y dylai unrhyw waith hyrwyddo bwysleisio’r ffaith bod gwaith chwarae’n unigryw o ran dull ac yn wahanol i sectorau eraill sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

*“Mae angen hyrwyddo gwaith chwarae’n fwy fel gyrfa. Hyd yn oed pan fo hyfforddiant ar gael, nid oes swyddi i fynd iddynt .”*

*“Ar y cyfan, nid yw awdurdodau lleol yn ystyried gwaith chwarae’n fath gwahanol o ddarpariaeth, nac fel proffesiwn. Mae’n anodd diffinio gweithiwr chwarae.”*

*“Nid oes llwybr clir i bobl sy’n dymuno dod yn weithwyr chwarae.”*

*“Mae proffil y proffesiwn yn cael ei godi’n raddol ac mae chwarae’n cael ei roi ar yr agenda.”*

- 3.12 Roedd rhai cyflogwyr yn teimlo bod y gweithlu gwaith chwarae wedi dod yn fwy radical, sydd wedi’i gwneud yn anodd iddynt rannu tir cyffredin gydag eraill sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc:

*“Gall gweithwyr chwarae fod yn eithaf radical, o ran gweithio’r ffiniau, ond mae’n bwysig ein bod yn cydnabod y gwaith y mae eraill yn ei wneud ym maes Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, y mae ganddynt hwythau ran i’w chwarae.”*

*“Mae rôl y gweithiwr chwarae’n bwysig, ond yr hyn sy’n bwysicach yw’r angen i gydweithio’n agos gyda phartneriaid eraill.”*

### **Gyrfaedd Gwaith Chwarae**

- 3.13 Dywedodd dros 90% o’r rheiny yr ymgynghorwyd â hwy eu bod yn teimlo bod gwaith chwarae’n yrfa werth chweil. Mae gweithwyr chwarae ar y cyfan yn

ymroddgar iawn ac yn ymroddedig i waith chwarae a gwerthoedd chwarae er mai cyfleoedd gyrfa cyfyngedig sydd, a bod diffyg cydnabyddiaeth.

*"Mae gwaith chwarae'n gyfyngol, ond mae'n werth chweil. Am fod pobl yn ystyried nad yw'n ddarpariaeth statudol (yn wahanol i waith ieuenctid) mae'n dod i fod yn llai pwysig. Mae angen mwy o gydlynoldeb er mwyn i'r maes fod yn gyson â gwaith ieuenctid a'r blynyddoedd cynnar."*

*"Ydy, mae'n yrfa werth chweil. Mi fydda i yma nes byddaf yn ymddeol. Dydw i ddim yn credu ei bod yn cael ei gwerthfawrogi fel gyrfa werth chweil – dim ond gan y bobl sy'n dilyn yr yrfa hon."*

*"Ydy, mae'n sicr yn rhywbeth y byddaf yn parhau i'w wneud. Gweithiwr chwarae hŷn 43 mlwydd oed. Doeddwn i ddim yn meddwl y byddwn yn dilyn y trywydd hwn ond mae'n gyfle da ar gyfer gwaith i bobl o bob oedran."*

3.14 I rai, mae'r diffyg cyfleoedd gwaith a gyrfa'n ddigon rhwystredig iddynt ystyried gadael y sector.

*"Rwy'n 45 felly rwy'n teimlo y byddaf o bosib yn symud ymlaen yn y 2 flynedd nesaf i wneud rhywbeth arall. Mae'r tâl yn wael, a does dim digon o oriau i'w wneud yn ddichonadwy."*

*" Rwy'n hoffi gweithio yn yr amgylchedd, mae chwarae'n rôl deilwng ond yn waith caled. Weithiau dydw i ddim yn teimlo bod y gwaith yn cael ei gydnabod fel rhywbeth teilwng mewn ysgolion gan fod y strwythur cymwysterau'n wahanol i addysgu."*

*"Mae'n anodd. Dydw i ddim yn rhagweld y byddaf yn gadael byd chwarae o ddewis ond dydw i ddim yn gwybod pa ddatblygiad gyrfa sydd ar gael i mi? Nid oes lefel uwch i'w chael. Dydw i ddim yn rhagweld y byddaf yn gweithio ym myd chwarae yn yr hirdymor gan nad oes cyfleoedd."*

*"Mae gwaith chwarae'n rôl werth chweil ond yn anffodus nid oes strwythur gyrfa a strwythur cyflogau i weithwyr chwarae a dydw i ddim yn rhagweld y byddaf yn aros yn yr hirdymor."*

3.15 Roedd cynaliadwyedd prosiectau chwarae'n fater a godwyd gan weithwyr chwarae a chyflogwyr fel ei gilydd – yn enwedig awdurdodau lleol. Fel gwasanaeth anstatudol, y teimlad yw bod chwarae'n wasanaeth arbennig o anodd i'w gynnal.

*"Rwy'n meddwl ei bod yn yrfa werth chweil ond mae cyllid yn broblem o ran cynaliadwyedd. I gynnal darpariaeth chwarae sy'n cael ei staffio'n dda mae arnom angen adnoddau i'w chadw i fynd. Rwy'n ystyried bod chwarae'n ddarpariaeth drosiannol dda – mae budd gwirioneddol yn deillio o gyfleoedd chwarae lleol. Mae'n bwysig iawn ymgysylltu â theuluoedd a phlant mewn angen yn y gymuned. Mae'n llenwi llawer o fylchau a adewir gan wasanaethau eraill ond mae'n anodd i'w gynnal. Rwyf newydd glywed bod y cyllid ar gyfer fy mhrosiect i wedi cael ei dynnu'n ôl."*

3.16 Mae nifer o weithwyr chwarae mewn awdurdodau lleol yn cael eu cyflogi'n rhan-amser, ac mewn ffordd dameidiog (i gyd-fynd ag oriau'r tu allan i'r ysgol). Dywedodd mwy nag un ymatebydd, er mwyn bod â gweithlu hyfforddedig a chymwysedig, bod rhaid i'r swyddi fod â digon o oriau (awgrymwyd 20+ awr trwy gydol y flwyddyn) i'w gwneud yn werth chweil fel gyrfa. Mewn nifer o

ardaloedd, mae nifer fawr o weithwyr sy'n gweithio'n gyfan gwbl wirfoddol, heb dderbyn tâl am eu gwaith. Mewn un awdurdod lleol, mae 125 aelod o staff gwirfoddol yn rhedeg y cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau'r haf, heb dderbyn tâl ar wahân i'w treuliau.

## Recriwtio a Chadw

- 3.17 Ym mhob sector o fewn cyflogaeth gwaith chwarae (ar lefel cyflenwi gwaith chwarae i blant a phobl ifanc), mae cyflogwyr yn dweud ei bod yn anodd recriwtio, hyfforddi, cymhwysu a chadw staff.
- 3.18 O'r cyflogwyr a ymatebodd i'r arolwg yn 2008, roedd 85% wedi recriwtio o leiaf un aelod o staff yn y 12 mis blaenorol. Dywedodd y mwyafrif o'r rheiny a ymatebodd (58%) eu bod yn ei chael yn anodd recriwtio'r staff chwarae y mae'i angen arnynt a dywedodd 23% arall ei bod yn galed. Cyflogwyr yn y sector preifat oedd fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn ei chael fwyaf anodd recriwtio. Efallai fod hyn o ganlyniad i'r cyflogau is a gynigir i weithwyr yn y sector hwn.
- 3.19 O ran recriwtio, rhoddwyd nifer o resymau am anawsterau wrth ddenu staff addas:
- Nid oes digon o weithwyr yn y farchnad lafur sydd â chymhwyster Lefel 3 naill ai mewn gwaith chwarae, neu ofal plant, sydd wedyn yn gallu rhedeg lleoliadau. Gwaith chwarae yw'r cymhwyster a geisir, ond yn aml iawn caiff cyflogwyr eu gorfodi i dderbyn ymgeiswyr â chymwysterau gofal plant neu gymwysterau gwaith ieuencid a chymunedol, ac sydd â phrofiad addas.
  - Nid oes digon o gyrsiau hyfforddi sy'n cynnig Gwaith Chwarae ar Lefel 3.
  - Nid oes digon o gyflogeion yn y sector gwaith chwarae â chymwysterau Lefel 2 priodol, ond mae cyflogwyr yn cael eu gorfodi i dderbyn ymgeiswyr sy'n barod i weithio tuag at Lefel 2. Nid yw'r holl staff tymhorol dros dro'n ennill eu cymhwyster Lefel 2 am nad oes digon o gymhellant i wneud hynny.
- 3.20 Mynegwyd y farn gan gyflogwyr nad yw pobl ifanc sy'n paratoi i ymuno â'r farchnad waith yn cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ynghylch gwaith chwarae fel gyrfa. Roedd teimlad nad yw ymgynghorwyr Gyrfa Cymru sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau'n gwybod digon, os o gwbl, am waith chwarae fel dewis ac na fyddent o anghenraid yn gwahaniaethu rhwng y maes hwn a maes gofal plant<sup>5</sup>. Mae'r ffaith bod gwaith chwarae'n digwydd y tu allan i oriau ysgol yn golygu nad yw'n cyd-fynd yn rhwydd â phrofiad gwaith i ddisgyblion B110 y gall fod ganddynt ddiddordeb yn y math hwn o waith. Byddai

<sup>5</sup> Mae Gwaith Chwarae Cymru wedi dechrau creu cysylltiadau â Gyrfa Cymru i drafod sut i gydweithio â hwy i hyrwyddo gwaith chwarae fel swydd neu fel gyrfa. Mae hyn yn her i nifer yn y sector sy'n teimlo nad ydynt yn gallu hyrwyddo gwaith chwarae fel gyrfa gan fod cryn dipyn o'r gweithlu naill ai'n dymhorol neu'n rhan-amser.

hefyd yn broblem iddynt weithio gyda phobl o oedran tebyg iddynt hwy eu hunain a byddai angen trefnu eu bod yn gweithio gyda grŵp oedran ifancach.

- 3.21 O ran cadw staff, siaradodd nifer o gyflogwyr ym mhob sector am eu rhwystredigaeth am eu bod yn recriwtio staff addas, yn eu hyfforddi i lefel achrededig ac yn eu colli wedyn. Mae hyn yn digwydd am amrywiaeth o resymau: er enghraifft, dim ond fel rhywbeth yn ychwanegol at swydd arall neu gwrs astudio yn y coleg neu'r brifysgol yr ymgymerasant â'r rôl gwaith chwarae, neu un rheswm arall a roddir yw bod gweithwyr wedyn yn symud at gyflogwr sy'n gallu rhoi gwell tâl ac amodau iddynt.
- 3.22 Fe wnaeth un swyddog prosiect isadeiledd grynhoi'r anawsterau i'r sector fel a ganlyn:

*“Nid yw adnoddau'n diwallu anghenion y sector am nifer o resymau:*

- *mae'r cymysgedd daearyddol / gwledig yng Nghymru'n gwneud y gweithlu'n anodd i'w hyfforddi ac yn gwneud darpariaeth chwarae'n anos i'w chyflenwi*
- *mae cryn dipyn o'r ddarpariaeth chwarae'n digwydd trwy gynlluniau yn ystod gwyliau'r haf, ac felly mae'r gweithlu'n cael ei ddefnyddio'n dymhorol*
- *mae gweithwyr chwarae'n cael cyflogau isel, am oriau rhan-amser ar gontractau byrdymor, mewn sector lle mae datblygiad gyrfa'n wael.*
- *mae 60% o'r gweithlu heb gymwysterau ac yn methu â chyrraedd safonau cyflenwi*
  - *nid oes cyllid digonol ar gyfer hyfforddiant i'r gweithlu”*

### **Lefelau Cymwysterau Cyfredol**

- 3.23 Gofynnwyd i'r bobl a oedd yn rhan o'r arolwg<sup>6</sup> i nodi'r lefel uchaf o addysg yr oeddent wedi'i chyrraedd yn eu bywyd. Fe seiliwyd hyn ar lefelau yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*. O'u cymharu â'r boblogaeth gyfan, mae pobl sy'n gweithio ym myd chwarae wedi'u haddysgu i lefel uwch gydag; 86% wedi ennill cymhwyster Lefel 2 neu uwch (65% yng Nghymru gyfan<sup>7</sup>); 71% wedi derbyn addysg ar Lefel 3 neu uwch (47% yng Nghymru); a 39% wedi ennill cymhwyster ar Lefel 4 neu uwch (27% yng Nghymru).
- 3.24 Roedd gwahaniaethau mewn cyflawniad addysgol yn ôl y rolau yr oedd pobl yn eu cyflawni ym myd chwarae ac mae tuedd i bobl fod â lefel addysgol uwch mewn rolau sy'n ymwneud â datblygu chwarae neu reoli.
- 3.25 Gofynnwyd i bobl sy'n gweithio ym myd chwarae hefyd a oedd ganddynt gymhwyster gwaith chwarae. Ar y cyfan, dywedodd 41% o'r ymatebwyr bod ganddynt gymhwyster gwaith chwarae cydnabyddedig<sup>8</sup>. Y rheiny sy'n gweithio


<sup>6</sup> Melyn Consulting (2008) Adroddiad Datblygu'r Gweithlu Chwarae Cymru

<sup>7</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Rhagfyr 2007 Lefelau cymwysterau oedolion o oedran gweithio yn ôl gwlad a rhanbarth yn y DU

<sup>8</sup> O'r rhain, roedd gan gyfran gymwysterau a oedd yn eu galluogi (at ddibenion rheoleiddio) i weithio mewn lleoliad chwarae (e.e. NNEB) ond o'r wybodaeth a ddarparwyd roedd yn amlwg nad oeddent yn meddu ar gymhwyster chwarae penodol.

ym maes datblygu chwarae a hyfforddiant chwarae oedd fwyaf tebygol o fod â chymhwyster a'r rheiny sy'n gweithio mewn rolau eraill ond yn defnyddio chwarae sydd leiaf tebygol o fod â chymhwyster chwarae. Cafwyd mai'r cymhwyster mwyaf cyffredin gan bobl oedd NVQ Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae, gyda 10% o'r rheiny sy'n gysylltiedig â chwarae yng Nghymru'n meddu ar y cymhwyster hwn.

**Ffigur 2: Y gyfran o bobl â chymhwyster gwaith chwarae yn ôl rôl**



3.26 Mewn cyfweiliadau dilynol, canfuwyd fod 63% o'r rheiny sy'n eu disgrifio'u hunain yn weithwyr chwarae'n meddu ar gymhwyster gwaith chwarae a bod nifer cynyddol (11%) wedi cwblhau elfennau o'r cymhwyster P<sup>3</sup> (Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith).

### ***Y galw am hyfforddiant***

3.27 Wrth asesu'r galw cyfredol a'r galw sydd heb ei ddiwallu am hyfforddiant, mae angen ystyried nifer o ffactorau.

### **Cyfleoedd Cyflogaeth**

3.28 Yn gyntaf, ac yn debyg i sectorau eraill (e.e. gwaith ieuencid, gofal plant) y prif sbardun ar gyfer hyfforddiant yw cyflogaeth. Gan nad yw gwaith chwarae'n broffesiwn a reoleiddir ac a ddiogelir, yn amlach na pheidio bydd pobl yn dechrau gweithio fel gweithwyr chwarae heb gymhwyster gwaith chwarae. I nifer o weithwyr chwarae, eu cyfnod sefydlu cyn dechrau gweithio ar, er enghraifft, gynllun chwarae yn ystod gwyliau'r haf, fydd yr hyfforddiant chwarae cyntaf y byddant yn ei dderbyn. Yn hyn o beth, mae cysylltiad rhwng y galw am hyfforddiant a'r cyflenwad o swyddi ym myd chwarae.

3.29 Mae awdurdodau lleol sy'n cyflogi gweithlu chwarae tymhorol, a rhan-amser yn aml, dros gyfnod gwyliau'r haf fel arfer yn rhedeg eu cyrsiau sefydlu /

cyflwyniadol eu hunain, i roi i gyflogeion yr wybodaeth sylfaenol y mae'i hangen arnynt ac i gydymffurfio â chanllawiau statudol o ran hyfforddiant mewn pynciau generig megis: amddiffyn plant, cymorth cyntaf, iechyd a diogelwch. Gallai'r rhain gael eu datblygu'n fewnol, neu fe allant fod yn rhan o'r cwrs P<sup>3</sup>, pa un a yw cyflogeion yn mynd i weithio tuag at y cymhwyster hwn ai peidio. Mae'n beth eithaf cyffredin i rannau o'r cwrs P<sup>3</sup> gael eu defnyddio, heb achrediad.

*“Fel rhan o strategaeth y gweithlu (gofal plant a gwaith chwarae), rydym wedi datblygu cwrs DPP rhagarweiniol dros chwe wythnos (12 awr) mewn gwaith chwarae, sy'n arwain at P3 / L3, yn rhad ac am ddim .”*

*Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili*

*“Mae'r cyngor yn rhoi hyfforddiant sylfaenol i'r gweithwyr hyn ar ffurf hyfforddiant generig a hyfforddiant seiliedig ar weithgareddau. Mae'n sicr yn un o'r anghenion ar gyfer y dyfodol y dylai hyn gynnwys egwyddorion chwarae. Mae hyfforddiant yn faes aneglur ar hyn o bryd.”*

*Cyngor Sir Gwynedd*

- 3.30 Yn y sector gwirfoddol mae mynediad at hyfforddiant a chymwysterau'n amrywio yn ôl blaenoriaethau rheolwyr, maint y sefydliad ac argaeledd daearyddol cyrsiau hyfforddi. Lle caiff cyllid ar gyfer cyrsiau ei nodi yn y gyllideb gyffredinol fel blaenoriaeth a lle mae hyfforddiant ar gyfer cymwysterau wedi cael ei sefydlu fel disgwyliad ar gyfer staff, ceir mwy o ymrwymiad gan y cyflogai i gwblhau'r hyfforddiant. Yn y pegwn arall, ceir clybiau all-ysgol a chlybiau yn y gwyliau sy'n cael eu rhedeg gan reolwyr sy'n meddu ar ychydig iawn o wybodaeth am chwarae fel sector gwaith ac nad ydynt yn gwahaniaethu rhyngddo a gofal plant.
- 3.31 Mewn meithrinfeydd dydd preifat sy'n cynnig darpariaeth all-ysgol, mae staff yn nodweddiadol wedi derbyn hyfforddiant i Lefel 3 mewn gofal plant ar gyfer gweithio gyda phlant llai yn ystod y dydd ac fe all eu bod o bryd i'w gilydd yn derbyn peth hyfforddiant mewn testunau gwaith chwarae. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar y flaenoriaeth a roddir iddo gan reolwr y feithrinfa ac argaeledd y math hwn o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn lleol.

### **Argaeledd Cyllid ar gyfer Hyfforddiant**

- 3.32 Er bod nifer o weithwyr chwarae'n mynd ymlaen i ennill cymwysterau gwaith chwarae maes o law, mae eu gallu i wneud hynny'n gysylltiedig â chyfluoedd cyflogaeth parhaus ac argaeledd cyllid i dalu am hyfforddiant. Yn hyn o beth, caiff y galw am hyfforddiant gwaith chwarae ei ysgogi gan argaeledd cyllid.
- 3.33 Canfu cyfweiliadau â phob un o'r 22 awdurdod lleol fod cyllid ar gyfer hyfforddiant ledled Cymru'n gwbl anghyson. Mae'n dibynnu ar ffrydiau cyllido ar gyfer gwahanol fentrau; pa un a geisiwyd mynediad at bocedi o gyllid mewn

ffordd greadigol, a pha un a yw partneriaethau wedi cael eu ffurfio â sefydliadau eraill.

*“Mae’r ffrydiau cyllido ar gyfer gwahanol ardaloedd mor anwadal. Os bydd cyllid Cymorth yn dod i ben, byddwn yn ôl ble’r oeddem o’r blaen.”*

*Cyngor Sir y Fflint*

- 3.34 Mewn nifer o ardaloedd, mae toriadau cyllidebol wedi effeithio ar gyllidebau hyfforddi a dim ond hyfforddiant generig statudol y byddant yn ei gynnig i weithwyr.

*“Mae ein holl anghenion hyfforddiant heb eu diwallu, am nad oes cyllideb ar gael ar gyfer hyfforddiant.”*

*Swyddog Datblygu Chwarae Awdurdod Lleol*

- 3.35 Yn y sector gwirfoddol a’r sector preifat, dywedodd nifer o gyflogwyr eu bod yn ei chael yn anodd iawn hyfforddi eu staff am fod cyllideb CPCKC wedi dod i ben. Meddai rheolwr un clwb ar ôl ysgol:

*“Roedd CPCKC yn arfer cynnig rhaglen hyfforddi dda, gydag amrywiaeth o gyrsiau defnyddiol megis egwyddorion ac arfer a chynhwysiant ym myd chwarae, ond yn awr mae’r cyllid wedi mynd.”*

- 3.36 Mae’r sector fel sbwnj o ran y galw am hyfforddiant gan y bydd yn amsugno cymaint o hyfforddiant ag y gellir ei gynnig – yn fforddiadwy. Ni ddaethom ar draws gormodedd o hyfforddiant chwarae ar unrhyw gam yn yr ymchwil hon. Roedd rhai ardaloedd lle nad oedd hyfforddiant chwarae’n llawn ond roedd a wnelo hyn yn aml â’r math o gwrs a gynigir; materion gwledig; amseriad; neu gost.

### **Anghenion Hyfforddiant Penodol**

- 3.37 Mae ar sectorau arbennig o fewn y gweithlu chwarae angen hyfforddiant penodol. Bu i waith ymgynghori â chyflogwyr a swyddogion awdurdodau lleol ganfod bod ar y sector clybiau all-ysgol yn benodol angen hyfforddiant mewn chwarae, ond bod meithrinfeydd dydd a sefydliadau sy’n bartneriaid megis yr heddlu, y gwasanaeth ieuencid, gweithwyr allgymorth a staff canolfannau hamdden yn cael eu henwi fel sectorau a fyddai’n elwa o hyfforddiant chwarae. Un thema gyffredin gan weithwyr chwarae, cyflogwyr ac awdurdodau lleol oedd yr angen am hyfforddiant ar gyfer gwaith gyda phlant anabl i wneud darpariaeth chwarae’n fwy cynhwysol.

*“Mae ar y sector all-ysgol angen yr holl DPP y gallwch lwyddo i’w roi.”*

*Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili*



*“Mae clybiau all-ysgol yn dal i fod y maes sydd â'r angen mwyaf (am hyfforddiant gwaith chwarae) ac mae 20 cais yn fwy wedi cael eu cyflwyno am gyrsiau'r flwyddyn nesaf, nag sydd o leoedd ar gael. Nid yw'r cyllid fel arfer yn cyfateb i'r diffyg sgiliau.”*

*Cyngor Dinas Caerdydd*

*“Mae arnom angen hyfforddiant sgiliau ac ymwybyddiaeth ar gyfer pawb sy'n ymwneud â phlant – ysgolion, rhieni a darpariaeth y tu allan i oriau ysgol.”*

- 3.38 Fe soniodd rhai clybiau all-ysgol a meithrinfeydd dydd y rhoddwyd cyfweiliad iddynt eu bod yn defnyddio pecyn hyfforddiant ar gyfer lleoliadau all-ysgol a gynhyrchwyd gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs a bod hon yn ffordd ddefnyddiol iawn i reolwyr helpu staff clybiau all-ysgol trwy hyfforddiant mewnol. Mae eraill wedi ei chael yn anodd cael mynediad at hyfforddiant perthnasol. Meddai rheolwr un feithrinfa am ddefnyddio hyfforddiant Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCCK): *“Mae llwyth o hyfforddiant yn y blynyddoedd cynnar, ond mae hyn i gyd ar gyfer gofalu am blant llai”* ac *“Mae gennym 42 aelod o staff yma ac ni allwn ryddhau staff yn aml ar gyfer hyfforddiant.”*
- 3.39 Mae rhai ardaloedd yn cynnig hyfforddiant mewn materion sy'n ymwneud yn benodol â gwaith chwarae, ond nid yw'r rhain yn hollgynhwysfawr ar unrhyw gyfrif. Mae testunau'r hyfforddiant penodol yn cynnwys: chwarae cynhwysol, chwarae amgylchedd ac elfennau, cynnwys pobl ifanc wrth ymgynghori, cylchoedd chwarae, ymyrraeth, hwyluso gemau, risg a thân, chwarae antur, gweithio mewn ardaloedd o amddifadedd a gweithio gyda phlant anabl. Dywedodd rhai rheolwyr yn y sectorau gwirfoddol a phreifat eu bod yn teimlo nad yw ansawdd yr hyfforddiant yn gyson o fewn sefydliadau hyfforddi.

*“Nid yw ansawdd yr hyfforddiant wastad yn uchel.”*

*“Mae ansawdd yr hyfforddiant yn amrywio. Mae peth ohono'n dda iawn a pheth heb fod mor dda.”*

*“450 mewn ystafell a'r cwbl a wnaeth yr hyfforddwr oedd darllen o dryloywderau”.*

- 3.40 Mewn rhai ardaloedd mae modiwlau trosglwyddo wedi cael eu datblygu i helpu cyflogeion o lwybrau hyfforddiant a chymwysterau eraill i symud i mewn i'r sector gwaith chwarae. Er bod rhai o'r anghenion hyfforddiant ym maes gwaith chwarae'r un fath â'r sector gofal plant, roedd ymatebwyr yn teimlo'i bod yn bwysig gwahaniaethu rhyngddynt. *“Mae'r cydbwysedd allan o drefn yn ofnadwy.”*

*“Cawsom fod angen modiwl DPP trosiannol i bobl â chymwysterau gofal plant sy'n dymuno gweithio ym maes gwaith chwarae, felly fe drefnon ni fod hyn ar gael. Rydym yn credu mai'r rhwystr mwyaf yw trosglwyddo o'r naill sector i'r llall – ceir newid mewn ethos ac egwyddorion.”*

*Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent*

## **Effaith y Mesur Plant a Theuluoedd**

- 3.41 Mae'r Mesur Plant a Theuluoedd yn debygol o ddwyn effaith ar y galw am hyfforddiant gwaith chwarae'n benodol a gwaith chwarae'n gyffredinol. Fel rhan o'r ymchwil hon, gofynnwyd i swyddogion chwarae awdurdodau lleol a swyddogion gweithredol prosiectau Isadeiledd sut yr oeddent yn meddwl y byddai'r Mesur yn effeithio ar eu gwasanaethau hwy. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn croesawu'r ffaith y bydd proffil gwaith chwarae'n cael ei godi gan y Mesur.

*“Bydd yn ddefnyddiol. Bydd y Mesur yn rhoi hwb ychwanegol i ddatblygu darpariaeth chwarae.”*

*“Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn rhoi proffil uwch i waith chwarae ac y byddwn yn peidio â bod yn 'berthnasau tlawd'.”*

*“Gobeithio y bydd yn dwyn effaith ar ddarpariaeth a hyfforddiant chwarae.”*

- 3.42 Fodd bynnag, roedd gan rai amheumon ac roeddent yn pryderu y byddai gofyn iddynt drefnu mwy o ddarpariaeth chwarae o ganlyniad i'r Mesur, ond y byddent yn methu â darparu adnoddau ar ei chyfer, yn enwedig lle maent yn wynebu toriadau mewn cyllid.

*“O ran chwarae'n dod yn rhan o'r ddarpariaeth statudol, mae'n beth gwyach, ond mae'n rhaid bod mwy o arian ar gael hefyd.”*

*“Mae'r Mesur yn nodi swyddogaeth statudol i ddarparu gweithgareddau chwarae, ond nid yw'n ddigon canfod bylchau yn y ddarpariaeth; mae'n rhaid bod ymrwymiad i'w llenwi hefyd.”*

*“Mae angen cydnabod y dylai'r sector dderbyn cyllid craidd ac nid cyllid Cymorth yn unig. Os yw'r cyllid ar gyfer chwarae'n cael ei roi i'r cyngor, mae angen cyllid dynodedig, fel nad yw'n cael ei seiffno i sector arall.”*

- 3.43 Roedd ymatebwyr hefyd yn llawn amheumon ynghylch geiriad y Mesur a sut y byddai'r termau'n cael eu diffinio mewn canllawiau.

*“Mae angen i ni ofyn beth yw ystyr ‘digonolrwydd’. Mae'n rhaid bod a wnelo â gweithwyr, nid meysydd chwarae.”*

*“Bydd effaith y Mesur yn dibynnu ar y canllawiau a roddir a'r diffiniadau o 'chwarae' a 'digonol'. Po fwyaf eang fydd y diffiniad, po rwyddaf fydd hi i ddweud ein bod wedi cyflawni'r amcan.”*

*“Mae arnom angen diffiniad o 'digonolrwydd'. Rydym yn bryderus y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ceisio gosod cyfyngiadau ar gyflenwi gweithgareddau chwarae, mewn ymateb i ymgynghoriadau'n genedlaethol. Mae gwir angen i ni allu ymateb yn lleol – o ran gwybod pa ddarpariaeth y mae'i hangen a ble i wario'r cyllid.”*

## **Effaith Rhaglen Chwarae Plant y Gronfa Loteri FAWR**

- 3.44 Fel rhan o Ail Gylch Rhaglen Chwarae Plant y Gronfa Loteri Fawr mae deg o geisiadau am brosiectau strategol a fyddai'n gwasanaethu Cymru gyfan wedi

cael eu datblygu ac wrthi'n cael eu hystyried gan y Gronfa Loteri FAWR ar gyfer cymeradwyaeth ym mis Ebrill 2010. Bydd y ceisiadau'n cyfrannu at ddatblygu deg prosiect gwaith chwarae peripatetig rhanbarthol, gan ddarparu cyfleoedd chwarae di-dâl, cynhwysol, sy'n cael eu staffio, lle canfuwyd fod ar blant a phobl ifanc eu hangen fwyaf, yn eu cymunedau. Bydd y model cymunedol hwn o ddarpariaeth yn dwyn effeithiau dwfn ar y cyflenwad o, a'r galw am hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae— yn y byrdymor wrth i gyllid y loteri gael ei ddefnyddio i recriwtio gweithwyr chwarae, ac yn yr hirdymor wrth i fodolau cymunedol gael eu sefydlu.

- 3.45 Mae prosiectau Isadeiledd yng Nghylch Un eisoes wedi dechrau meithrin y gallu'n barod ar gyfer Cylch Dau gyda hyfforddwyr yn cael eu recriwtio a'u hyfforddi, neu mewn rhai achosion, trwy feithrin cysylltiadau â cholegau lleol i ddatblygu cyrsiau hyfforddiant chwarae.
- 3.46 Os bydd yr holl brosiectau yng Nghylch Dau'n cael eu cymeradwyo, bydd cynnydd yn y gweithlu wrth i weithwyr peripatetig neu 'geidwaid chwarae' gael eu recriwtio. Mae arolwg o'r 10 o brosiectau Isadeiledd yn awgrymu y bydd hyn yn arwain at greu 140 o swyddi gwaith chwarae ychwanegol dros y cyfnod o 4 blynedd y bydd y prosiectau'n weithredol. Er nad yw hyn ond yn nifer fechan o swyddi yn y gweithlu ar y cyfan, byddant yn swyddi o safon uchel a gyllidir ac a gefnogir yn dda a bydd potensial sylweddol iddynt gyfoethogi'r proffesiwn a datblygu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gyrfaoedd.
- 3.47 Fodd bynnag, bydd a wnelo potensial llawn y Rhaglen Chwarae Plant â'i gallu i greu isadeiledd cymunedol, lleol i barhau i gyflenwi a datblygu cyfleoedd chwarae. Ar gyfer hyn bydd angen nid yn unig galluoedd hyfforddi i ddiwallu anghenion gweithwyr â thâl y gellid eu cynnal wedi i'r cyllid ar gyfer y prosiectau ddod i ben, ond hyfforddiant cychwynnol a pharhaus hefyd ar gyfer gwirfoddolwyr mewn cymunedau. Bydd hyn yn golygu bod angen i fodolau hyfforddiant fod yn briodol i wirfoddolwyr cymunedol nad oes diddordeb ganddynt mewn gwaith chwarae fel proffesiwn, ond hefyd i'r rheiny a allai ymgymryd â rôl wirfoddoli fel cam cyntaf tuag at ennill cymhwyster galwedigaethol.

## 4. Modelau Hyfforddiant Chwarae cyfredol

- 4.1 Mae'r hyfforddiant a gyflenwir i'r sector Chwarae'n perthyn yn fras i ddau gategori: Yn gyntaf, ceir hyfforddiant sy'n arwain at ddyfarnu cymhwyster galwedigaethol cydnabyddedig mewn Gwaith Chwarae. Yn y maes hwn mae nifer o lefelau o gymwysterau a dulliau cyflenwi; yn ail, ceir hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) sy'n rhoi i weithwyr arbenigedd proffesiynol i gynnal, gwella ac ehangu'u gwybodaeth a'u sgiliau a datblygu'r rhinweddau personol sy'n ofynnol yn eu bywydau proffesiynol. Mewn rhai achosion, gall DPP gyfrannu tuag at gymhwyster ar bobl lefel ac mae unedau o gymwysterau'n aml yn cael eu defnyddio i gyflenwi DPP. Gall cyrsiau Addysg Uwch mewn Gwaith Chwarae hefyd fod yn rhan o raglen o DPP. Gellir disgrifio peth o'r hyfforddiant DPP fel hyfforddiant sy'n seiliedig ar destunau, a hwnnw'n archwilio materion penodol mewn perthynas â gwaith pobl (e.e. rheoli ymddygiad; ymwybyddiaeth o gyffuriau ac alcohol) tra gall peth ohono fod yn hyfforddiant statudol megis Cymorth Cyntaf; Hylendid Bwyd a.y.b.

### **Hyfforddiant Galwedigaethol**

- 4.2 Yng Nghymru, caiff hyfforddiant gwaith chwarae galwedigaethol ei gyflenwi gan ystod o sefydliadau gan gynnwys sefydliadau hyfforddiant annibynnol, ac mae'r rhain yn cynnwys Colegau Addysg Bellach, Chwarae Cymru, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, awdurdodau lleol ac, yn gynyddol, cymdeithasau chwarae lleol.
- 4.3 Mae'r dulliau cyflenwi'n amrywio'n eang gan ddibynnu ar lefel y cymhwyster, y math o gymhwyster a dull gweithredu'r sefydliad dan sylw. Caiff pob un ohonynt fodd bynnag – os ydynt yn rhai achrededig – eu tanategu gan y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)<sup>9</sup>. Cyfres o feincnodau yw'r rhain a ddatblygwyd gan SkillsActive, y Cyngor Sgiliau Sector, ac sy'n nodi'r cymhwysedd y mae ar weithwyr chwarae ei angen mewn nifer o feysydd. Maent ar gael ar lefelau dau, tri a phedwar, ac yn tanategu'r hyn y mae gweithwyr chwarae'n ei astudio wrth ddilyn cymwysterau ar y lefelau hyn.
- 4.4 Ar hyn o bryd, mae tri dull bras o dderbyn hyfforddiant sy'n arwain at gymwysterau yng Nghymru:

### **Llwybr y Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ)**

- 4.5 Mae nifer o gyrff dyfarnu'n cynnig cymwysterau NVQ mewn Gwaith Chwarae. I ennill NVQ, dylai ymgeiswyr fod mewn swydd ac mae'n rhaid iddynt brofi bod

<sup>9</sup> Mae SkillsActive, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y sector Gwaith Chwarae, yn goruchwyllo'r broses o resymoli cymwysterau o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol i'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau. Mae'r newidiadau hyn yn ofynnol gan y Llywodraeth a'r terfynau amser ar gyfer hyn yw Ebrill 2009 – Rhagfyr 2010. Gall cymwysterau yn y rhestr gyfredol o gymwysterau a dderbynnir ar gyfer Gwaith Chwarae ddod yn gymwysterau rhagflaenol pan fydd y newidiadau i Fframweithiau Cymwysterau'r DU wedi cael eu cwblhau. Bydd yn ofynnol i'r holl gymwysterau newydd gydymffurfio â'r egwyddorion dylunio a gytunwyd gan y Cyngorau Sgiliau Sector.

ganddynt y gallu (cymhwysedd) i gyflawni'u swydd i'r safon ofynnol. Yn nodweddiadol, bydd ymgeiswyr ym maes gwaith chwarae'n gweithio tuag at NVQ sy'n adlewyrchu eu rôl mewn swydd â thâl neu swydd wirfoddol, felly NVQ 2 i Gynorthwydd Gwaith Chwarae; NVQ 3 i Weithiwr Chwarae.

### Y Llwybr Diploma

- 4.6 Mae rhai cyrff dyfarnu'n cyflenwi Gwaith Chwarae Lefel 2 a Lefel 3 fel cwrs Diploma lle nad oes asesiad gorfodol yn y gweithle er bod disgwyl i ddysgwyr fod mewn cyflogaeth yn barod neu'n gwirfoddoli mewn lleoliad gwaith chwarae. Gellir dilyn rhai cyrsiau trwy ddysgu o bell. Yng Nghymru, CACHE yw'r corff dyfarnu amlycaf ar gyfer yr hyfforddiant hwn gyda'r ddau brif ddarparwr hyfforddiant chwarae – Chwarae Cymru a Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs – ill dau'n cyflenwi cyrsiau CACHE. Defnyddir y term 'CACHE' felly i ddynodi'r math hwn o hyfforddiant cymwysterau gan y rhan fwyaf o bobl yn y sector.

### Y Llwybr Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P<sup>3</sup>)

- 4.7 Er ei fod yn debyg o ran strwythur i'r llwybr Diploma (mae'r cymhwyster yn cynnwys Dyfarniad, Tystysgrif a Diploma) mae'r cwrs P<sup>3</sup> yn dra gwahanol o ran cynnwys. Er ei fod yn ymlynu wrth y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, fe'i datblygwyd gan Chwarae Cymru i gwrdd ag anghenion cyflogwyr gwaith chwarae yng Nghymru a oedd wedi mynegi dyhead i ddatblygu cymhwyster gwaith chwarae newydd i Gymru a oedd yn adlewyrchu'r weledigaeth ar gyfer arfer ym maes gwaith chwarae yng Nghymru. Mae'r cymhwyster wedi'i fwrddu i alluogi gweithwyr chwarae i gael mynediad at yr hyfforddiant yn gynyddol, fesul cam. Mae'r dull hwn yn arbennig yn cwrdd ag anghenion gweithwyr chwarae tymhorol, dros dro sy'n aml yn gweithio ar gynlluniau chwarae yn ystod gwyliau'r haf. Ar hyn o bryd, dim ond ar Lefel 2 y caiff P<sup>3</sup> ei achredu.

### Safbwyntiau Cyflogwyr

- 4.8 Roedd y mwyafrif llethol o'r cyflogwyr y rhoddwyd cyfweiliad iddynt yn meddwl mai'r ffordd orau o gyflenwi hyfforddiant a chymwysterau oedd trwy gynnal cwrs cyflwyniadol / sefydlu byr sy'n arbenigol ar gyfer y grŵp, gyda modiwlau byr o gwrs achrededig i ddilyn. Ar ôl ennill cymhwyster, mynegodd y rhan fwyaf o gyflogwyr y farn y dylid cael mynediad wedyn at DPP arbenigol i lenwi bylchau penodol mewn gwybodaeth ac arfer, megis gweithio mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog neu anabledd.
- 4.9 Roedd nifer o'r rheiny y rhoddwyd cyfweiliad iddynt ac sy'n gweithio i awdurdodau lleol ac ar Brosiectau Isadeiledd yn rhan o dreialu hyfforddiant P<sup>3</sup> ac roeddent yn awyddus i archwilio'r posibilïadau yr oedd y dull yn ei gynnig o ran cynnal y ddarpariaeth hyfforddiant.

*Pan fo'r gweithlu gwaith chwarae'n dod yn hyfforddwyr arnynt hwy eu hunain, gallant eu rheoli eu hunain fel adnodd.*

*“Nid oes cyllideb hyfforddiant gennym, felly mae'r tîm yn gweithredu fel adnodd iddynt hwy eu hunain.”*

*“Mae angen i ni hyfforddi rhwydwaith lleol o hyfforddwyr P3 sy'n gallu hyfforddi dros ardal eang (e.e. tair sir yn lleol – Torfaen, Sir Fynwy a Chasnewydd).”*

*“Rydym am hyfforddi 3 hyfforddwr P3 peripatetig ar draws Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn, i hyfforddi'r gweithlu.”*

*Trwy hyfforddi hyfforddwyr yn yr ardal leol trwy hyfforddiant P3, gellir cynnal ansawdd y ddarpariaeth. Fel hyn, gellir datblygu'r gweithlu a gobeithio, yn y dyfodol, y bydd mwy o'r gweithwyr hyn yn dymuno cael eu hyfforddi fel hyfforddwyr.*

- 4.10 Roedd cyflogwyr o awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a'r sector preifat yn amrywio o ran eu safbwyntiau am gymwysterau ac roedd a wnelo hyn yn rhannol â faint o ddewis oedd ganddynt wrth ddefnyddio cymwysterau yn eu hardal. Roedd rhai pobl yn teimlo'n gryf, ar Lefel 2, bod y llwybr P<sup>3</sup> yn fwy addas na'r llwybr CACHE ar gyfer gwaith chwarae, ond roedd eraill o'r farn bod y ddau'n gymwysterau defnyddiol iawn:

*“Mae angen i bobl sy'n gweithio ar draws y grwpiau oedran feddu ar y ddau gymhwyster.”*

*“Mae'r ddau lwybr cymwysterau'n wahanol iawn ond mae'r ddau'n ddefnyddiol iawn.”*

*“Lle'r unigolyn yw penderfynu a yw'n well ganddo arddull P3 ynteu NVQ Lefel 2 CACHE mewn Gwaith Chwarae.”*

*“Rwy'n teimlo bod gwaith chwarae'n gallu cael ei gyflenwi'n llwyddiannus gan bobl o amrywiaeth o gefndiroedd o ran cymwysterau.”*

- 4.11 Dywedodd un cyflogwr sy'n rhedeg clwb all-ysgol yn Ynys Môn (lle nad yw cymwysterau gwaith chwarae wedi bod ar gael):

*“Dydw i ddim yn meddwl bod gwahaniaeth ai cymwysterau gofal plant ynteu cymwysterau gwaith chwarae ydynt. Yr hyn sy'n bwysig yw sgiliau a phrofiad personol.”*

- 4.12 Ar gyfer yr holl gyrsiau, roedd cyflogwyr o'r farn mai ansawdd y ddarpariaeth oedd un o'r ffactorau pwysicaf: *“Mae gan yr hyfforddwr ddylanwad mawr ar ansawdd y cwrs.”*

- 4.13 Dywedodd rhai cyflogwyr mewn awdurdodau lleol eu bod wedi cael eu “troi oddi ar” ddefnyddio P<sup>3</sup> fel cymhwyster, pan oeddent wedi'i ddefnyddio yn y cyfnod cynnar am fod y *“cynllun peilot yn rhy fawr i fod yn ddichonadwy”* a bod hyn wedi arwain at *“lawer o feirniadaeth annheg i Chwarae Cymru”*.

- 4.14 O'r cyflogwyr y cysylltwyd â hwy yn sector y clybiau all-ysgol a sector y meithrinfeydd dydd, roedd nifer heb fod yn ymwybodol o P3 a Chwarae Cymru. Doedd gan rai ddim llawer o syniad o gwbl am natur cymwysterau gwaith chwarae.

### Diploma / NVQ (CACHE) Dyfarniad Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae

- 4.15 Fel yr unig gymhwyster Gwaith Chwarae ar y lefel hon, dywedodd rhai ymatebwyr y byddent yn croesawu datblygiad cymhwyster P<sup>3</sup> ar Lefel 3 ar gyfer gwaith chwarae. Fodd bynnag, yr ystyriaeth bwysig i'r rhan fwyaf oedd a yw'r llwybr Diploma / NVQ Lefel 3 ar gael yn eu hardal, gan fod nifer yn gorfod defnyddio cymwysterau gofal plant i ateb gofynion staffio statudol ar gyfer lleoliadau:

*“Byddwn yn sicr yn dadlau o blaid hwn yn lle Gofal Plant Lefel 3, ar gyfer arweinwyr lleoliadau gwaith chwarae.”*

- 4.16 Er na chodwyd agweddau negyddol ar gwrs Diploma / NVQ Lefel 3 mewn gwirionedd, roedd teimlad y byddai'r cwrs yn well pe gallai gynnwys *“rheoli staff a gweithdrefnau disgyblu, am fod angen yr wybodaeth hon ar weithwyr er mwyn arwain.”*
- 4.17 Dywedodd un cyflogwr mewn awdurdod lleol eu bod wedi bod yn rhoi myfyrwyr prifysgol ar drywydd cyflym i ddilyn cyrsiau Diploma Lefel 3 er mwyn iddynt arwain lleoliadau chwarae, ond nad yw hyn yn bosib mwyach am resymau sy'n ymwneud â chyllid. Mae hyn wedi golygu na fydd cynlluniau yn ystod y gwyliau yn yr ardal eleni y tu hwnt i'r ddarpariaeth mewn meithrinfeydd dydd. Fe wnaeth y swyddog y sylw nad oedd wedi bod yn fodlon ar y dull cymhwyso hwn, am nad oedd yn seiliedig ar ymarfer.

### Diploma / NVQ (CACHE) Dyfarniad Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae

- 4.18 Roedd cyflogwyr yn teimlo ar y cyfan bod y cwrs CACHE Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae'n dda, ond fe wnaeth sawl un y sylw nad oedd hyn ond yn wir os oedd yr hyfforddwy eu hunain yn brofiadol ym maes gwaith chwarae.

*“Da, os na chaff ei ruthro”*

*“Gall fod yn un o ansawdd da, ond mae'n dibynnu ar y sawl sy'n ei gyflenwi.”*

*“Mae CACHE L2 yn dibynnu ar ansawdd yr addysgu ac ansawdd y lleoliad.”*

- 4.19 Dywedodd un neu ddau o gyflogwyr, gan fod y llwybr Diploma wedi ennill ei blwyf ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer nifer o gymwysterau galwedigaethol, bod mwy o hygyrdd yn perthyn iddo yn y farchnad lafur.

*“Mae'r NVQ CACHE mewn Gwaith Chwarae'n fwy gwerthfawr na P3 fel cymhwyster proffesiynol.”*

- 4.20 Roedd ymatebwyr yn meddwl bod hwn yn dda ar gyfer hyfforddi niferoedd mawr o weithwyr, oherwydd er ei fod yn cynnwys cyfnod ar leoliad, mae'r aseswyr yn gwneud llai o asesu ymarferol. Er enghraifft, mae Sir y Fflint yn

disgwyl y bydd 110 o weithwyr tymhorol wedi ennill Diploma Lefel 2 CACHE mewn Gwaith Chwarae, neu y byddant yn gweithio tuag ato, eleni.

- 4.21 Roedd beirniadaeth i lwybr Diploma Lefel 2 CACHE yn cynnwys y farn ei fod yn cymryd mwy o amser i'w gyflenwi na P<sup>3</sup> sy'n gallu ei wneud yn fwy drud gyda niferoedd bychain. Roedd y rhan fwyaf o bwyntiau negyddol yn ymwneud â'r ffaith nad oes elfen sy'n cynnwys asesiad ymarferol: *"Theori i gyd a 'dyw pobl ddim yn cael yr ymarfer."* Roedd teimlad bod ansawdd y cymhwyster yn dibynnu i raddau helaeth ar ansawdd lleoliad y myfyriwr. Fe wnaeth un cyflogwr y sylw: *"Byddwn i'n rhoi'r gorau i ddefnyddio CACHE yn gyfan gwbl am fod gormod ohono'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth ac am nad yw ar gael yn ddwyieithog."*

### **Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith - P<sup>3</sup>**

- 4.22 Roedd llawer mwy o ymatebwyr o blaid y cymhwyster P<sup>3</sup> ar gyfer gweithio ym myd chwarae ac roedd llawer o sylwadau a oedd yn adlewyrchu eu hedmygedd i frwdfrydedd ac ymrwymiad yr hyfforddwyr P<sup>3</sup>: *"Roedd yr hyfforddwyr a oedd yn cyflenwi P<sup>3</sup> yn ardderchog."*
- 4.23 Roedd nifer o sylwadau'n canolbwyntio ar y cynnwys, sy'n ymwneud yn bennaf ag egwyddorion ac arfer ym myd chwarae:

*"Yn bendant o blaid P<sup>3</sup> fel cymhwyster am ei fod yn seiliedig ar egwyddorion chwarae ac asesiad yn y gwaith."*

*"Mae'r cynnwys yn gyfoes ac yn addas ar gyfer y diben."*

*"Mae P<sup>3</sup> yn dda ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant, hyd yn oed os ydynt yn gweithio ym maes gofal plant."*

*"Nid dim ond ar gyfer chwarae mynediad agored y mae P<sup>3</sup> yn addas. Mae'n hyfforddi gweithwyr i newid unrhyw leoliad i alluogi plant i chwarae'n rhydd. Mae angen i staff sy'n gweithio ym mhob lleoliad gyda phlant gael hyfforddiant i alluogi hyn i ddigwydd." (nid gair am air)*

*"Mae'n cynnig manteision gwych i'r sector chwarae ac mae wir yn effeithio ar y modd y mae gweithwyr chwarae'n hwyluso gweithgareddau chwarae." (Hyfforddwr P<sup>3</sup>)*

*"P<sup>3</sup> yw'r cymhwyster mwyaf addas ar gyfer staff cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau'r haf."*

*"Mae'n addas iawn ar gyfer hyfforddiant chwarae mynediad agored – mae wir yn gwneud gwahaniaeth fel y gallwch weld."*

- 4.24 Agwedd arall ar P<sup>3</sup> yr oedd cyflogwyr yn ei hoffi oedd eu bod yn teimlo'i fod yn herio'r gweithwyr o ddifrif ac yn seiliedig ar ymarfer myfyriol.

*"Mae P<sup>3</sup> yn creu gweithwyr chwarae llawer gwell."*

*"Ar ôl P<sup>3</sup>, mae gweithwyr chwarae'n fwy parod i wneud eu gwaith."*

*"Mae P<sup>3</sup> yn fwy o her i'r gweithiwr chwarae na'r cwrs CACHE."*

*"Fel tiwtor CACHE, rwyf fi wedi dysgu llawer o P<sup>3</sup>."*



- 4.25 Roedd cyflogwyr ar y cyfan yn teimlo bod y dull cyflenwi'n creu gweithwyr chwarae gwell:

*“Caiff ei asesu'n drylwyr ac nid yw o anghenraid yn digwydd yn gyfan gwbl yn yr ystafell ddosbarth, sy'n ei wneud yn ddelfrydol ar gyfer grwpiau llai. Rydym yn bwriadu hyfforddi hyfforddwyr P<sup>3</sup>, er mwyn hyfforddi cyfran fwy o'r gweithlu.”*

*“Y ffordd orau o ddysgu yw ochr yn ochr â gweithwyr chwarae eraill.”*

- 4.26 Roedd sylwadau negyddol am P<sup>3</sup> yn canolbwyntio ar faint o waith sydd ei angen i ennill y cymhwyster llawn:

*“Mae'r P<sup>3</sup> yn llawer o waith – byddwn mewn gwirionedd yn disgwyl i hwn fod yn gwrs lefel uwch.”*

*“I wirfoddolwyr, mae P<sup>3</sup> yn rhy fanwl. Mae gormod o theori.”*

*“Mae P<sup>3</sup> yn ymrwymiad eithaf mawr i gyflogeion nad ydynt yn gweithio'n uniongyrchol ym myd chwarae, megis cynorthwywyr addysgu a goruchwylwyr amser cinio.”*

*“Mae angen cymhelliad i gwblhau'r cwrs i lefel cymhwyster.”*

- 4.27 O ran cynnwys, roedd rhai o'r farn y dylid rhoi sylw i ddeddfwriaeth, fel a wneir yn y llwybr NVQ. Roedd rhai'n meddwl nad yw P<sup>3</sup> yn gystal dewis ar gyfer hyfforddi niferoedd mawr o weithwyr tymhorol oherwydd y gost i grwpiau mwy, os defnyddir hyfforddwyr P<sup>3</sup>:

*“Ni fyddai P<sup>3</sup> yn gweddu i'n hanghenion hyfforddiant ni am na fyddai'r hyfforddwyr yn gallu arsylwi ar / asesu'r nifer yna o bobl ar gwrs”*

*“Mae P<sup>3</sup> yn llawer drutach i'w gyflenwi.” (Cyflogwr â gweithlu mawr)*

- 4.28 Roedd nifer o gyflogwyr mewn awdurdodau lleol ac ar brosiectau isadeiledd yn defnyddio rhannau o'r cwrs P<sup>3</sup> i hyfforddi staff, ond nid oeddent yn ei gyflwyno i lefel cymhwyster. Roedd un wedi datblygu'i gymhwyster OCN ei hun mewn gwaith chwarae sy'n bwydo i mewn i City & Guilds Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae.

- 4.29 Roedd rhai'n poeni am ddyfodol P<sup>3</sup>, hynny yw a yw'n gynaliadwy, ac roeddent yn teimlo cyfrifoldeb am roi cymwysterau i'w gweithwyr a fyddai'n dal i fod yn werthfawr yn y dyfodol.

*“Rwy'n teimlo nad oes unrhyw un wir yn gwybod beth yw dyfodol P<sup>3</sup> ac a fydd yn parhau ac mae perygl y bydd gweithwyr yn diweddu â chymhwyster nad yw'n golygu unrhyw beth.”*

- 4.30 Mae'r ansicrwydd hwn ynghylch P<sup>3</sup> a'r cyllid ar ei gyfer hefyd yn ffactor sy'n peri i rai cyflogwyr ddefnyddio CACHE Lefel 2 yn ei le. Er enghraifft, mae Gwasanaethau Chwarae Awdurdod Lleol Sir y Fflint wedi penderfynu rhoi eu staff Gwaith Chwarae trwy gymhwyster Tystysgrif CACHE Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae. Fe ddeilliodd eu penderfyniad o blaid CACHE Lefel 2 mewn

Gwaith Chwarae o'r ansicrwydd ynghylch cyllid ar gyfer P<sup>3</sup> nad oedd yn cwrdd â'u terfynau amser ar gyfer cynllunio a hysbysebu'r cwrs a phenodi hyfforddwy i hwyluso a'r rheiny'n meddu ar Gymhwysedd Galwedigaethol mewn Gwaith Chwarae. Mae Blaenau Gwent hefyd yn cyflenwi cymhwyster Tystysgrif CACHE Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae ar gyfer eu tîm gwaith chwarae, ond fe hoffent gyflenwi P<sup>3</sup> yn y dyfodol os gellir sicrhau cyllid ar gyfer hyfforddiant Gwaith Chwarae gan fod y cyllid ar lefel leol wedi cael ei wario ar Ysgolion Bro.

### Safbwyntiau Gweithwyr Chwarae

- 4.31 O'r gweithwyr chwarae hynny y rhoddwyd cyfweiliad iddynt, fe wnaeth rhai sylwadau am y modelau hyfforddiant chwarae galwedigaethol yr oeddent wedi cael profiad ohonynt. Roedd nifer o weithwyr chwarae wedi ennill cymwysterau trwy amrywiaeth o fodelau ac roeddent felly'n gallu eu cymharu.

*“Mae P3 yn cynnwys mwy o elfennau ymarferol fel rhan annatod. Yn draddodiadol roedd CACHE yn fwy seiliedig ar ddysgu yn yr ystafell ddosbarth. Hefyd mae P3 yn cynnwys mwy o safbwynt Cymreig. Nid oes cymaint o hynny yn CACHE. Mae Chwarae Cymru wedi ceisio sicrhau ansawdd P3 a hyfforddwy P3. Mae rhai pobl wedi cael profiadau negyddol o CACHE 2 a 3 oherwydd amrywioldeb o ran y dull o'i gyflenwi, hyfforddwy ac ati. Mae CACHE yn gwbl ddiagonol ond fel sbringfwrdd nes ein bod yn gallu darparu P3 ar lefelau 3 a 4.”*

- 4.32 Fe gododd un thema dro ar ôl tro ymhlith y rheiny a oedd yn gwneud cyrsiau Diploma ac a oedd yn ei chael yn anodd cael digon o brofiad ymarferol.

*“Mwy o gefnogaeth gan fy nghyflogwr gan fy mod yn gweithio'n llawn-amser a byddai gwneud cwrs hyfforddi'n golygu bod angen mynd ar leoliad i rywle arall i gael digon o safbwyntiau.”*

*“Mwy o gyfleoedd gwaith ymarferol. Ymarfer i weithwyr chwarae newydd, yn enwedig y rheiny heb blant na phrofiad blaenorol.”*

- 4.33 Dywedodd 65% o'r 122 o weithwyr chwarae y rhoddwyd cyfweiliad iddynt eu bod yn ymwybodol o'r gwahanol lefelau o gymwysterau Gwaith Chwarae a'u perthynas â gwahanol rolau mewn gwaith chwarae. Fodd bynnag, fe wnaeth nifer o'r rhain y sylw mai ymwybyddiaeth rannol sydd ganddynt, e.e. dim ond hyd at rolau ar gyfer y rheiny sy'n meddu ar lefel 3.
- 4.34 Dim ond 20% o'r rheiny nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau gwaith chwarae oedd â gwybodaeth dda am ddewisiadau o ran hyfforddiant chwarae. O'r rhain, dim ond ychydig a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'r gwahanol lefelau o gymwysterau gwaith chwarae.
- 4.35 Ychydig iawn o'r gweithwyr chwarae heb gymhwyster gwaith chwarae penodol oedd yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol iddynt. Roedd y rhain ar y cyfan yn bobl sy'n gweithio mewn meithrinfeydd dydd, clybiau all-ysgol neu broffesiynau cysylltiedig. Dywedodd sawl un y gallai cymwysterau eraill fod yn fwy

gwerthfawr a phriodol iddynt, tra bod eraill wedi nodi bod goblygiadau negyddol i fod â chymwysterau gwaith chwarae.

*"Mae'r cefndir gen i; dim ond y darn o bapur sydd ddim gen i. Rwyf wedi gweithio yn y sector am 25 mlynedd ac yn teimlo bod meddu ar gymwysterau o faes arall yn fwy defnyddiol na chymwysterau chwarae. Gallant fod yn gyfyngol, gan mai gwaith chwarae yw'r unig beth y gallwch ei wneud â gradd mewn gwaith chwarae. Maen nhw'n cynnwys rhai unedau ar reolaeth ond dim llawer heblaw am hynny. Nid ydynt yn cael eu cydnabod i'r un lefel."*

*"Rwy'n dod o gefndir gwaith ieuencid ac nid wyf yn dymuno mynd gyda grŵp oedran ifancach. Mae'r cymwysterau hyn yn cynnig llawer mwy nag y byddai cymhwyster gwaith chwarae'n ei roi i mi. Ni fyddai o fudd i mi yn fy rôl ar hyn o bryd."*

### **Datblygiad Proffesiynol Parhaus**

- 4.36 Mae ystod eang o DPP yn digwydd yn y sector Chwarae ond ymddengys yn aml fod mynediad yn dibynnu ar argaeledd cyllid naill ai trwy gyflogwyr neu gan awdurdodau lleol trwy Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc.
- 4.37 Canfu'r adolygiad o weithwyr chwarae yn 2008 mai'r hyfforddiant analwedigaethol mwyaf cyffredin a dderbynnid gan weithwyr chwarae oedd Cymorth Cyntaf, ac mai'r ail a'r trydydd mwyaf cyffredin oedd hyfforddiant ar Amddiffyn Plant a Chynhwysiant.
- 4.38 Mae angen modiwlau trosiannol hefyd i godi lefelau sgiliau'r rheiny sy'n newid rhwng gofal plant a chwarae.

*"Canfuom fod angen modiwl DPP trosiannol ar gyfer pobl â chymwysterau gofal plant sy'n dymuno gweithio yn y sector gwaith chwarae, felly fe drefnon ni fod hyn ar gael. Rwy'n credu mai dyma'r rhwystr mwyaf i drosglwyddo o'r naill sector i'r llall – newid mewn ethos ac egwyddorion." Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent*

- 4.39 Mae angen cyfleoedd ar gyfer DPP hefyd er mwyn rhoi cyfleoedd i'r rheiny sy'n gysylltiedig â chyflenwi cymwysterau i gynnal dealltwriaeth gyfoes am theori ac arfer ym myd chwarae, gwaith chwarae a chyflenwi cyfleoedd dysgu. Mae hyn yn cynnwys DPP ar lefel uwch – Lefel 4 ac uwch – er mwyn i Waith Chwarae ddatblygu fel proffesiwn. Mae'r cyfleoedd i astudio ar lefel gradd yng Nghymru'n gyfyngedig iawn ym maes Gwaith Chwarae – fel a drafodir yn yr adran nesaf.
- 4.40 Mae'n amlwg bod nifer o gyflogwyr gwaith chwarae'n dibynnu ar DPP yn hytrach na hyfforddiant cymwysterau i sicrhau bod eu gweithwyr yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i wneud y gwaith.

*"Nid yw gweithwyr yn cael eu gwobrwyo trwy eu cyflogau, felly mae'n rhaid i'w gwaith roi boddhad iddynt a'u symbylu. Mae angen iddynt aros gyfuwch â syniadau newydd am blant a sut yr ydym yn gweithio gyda phlant." (rheolwr meithrinfa ddydd)*

- 4.41 Mae awdurdodau sy'n cyflogi gweithlu chwarae tymhorol, rhan-amser yn aml, yn ystod gwyliau'r haf, fel arfer yn rhedeg eu cyrsiau sefydlu / cyflwyniadol eu hunain, i roi i gyflogeion yr wybodaeth sylfaenol y mae arnynt ei hangen a chydymffurfio â chanllawiau statudol o ran hyfforddiant mewn testunau generig megis: amddiffyn plant, cymorth cyntaf, iechyd a diogelwch. Gallai'r rhain gael eu datblygu'n fewnol, neu fe allant fod yn rhan o'r cwrs P<sup>3</sup>, pa un a yw cyflogeion yn mynd i fod yn gweithio tuag at y cymhwyster hwn ai peidio. Mae'n beth cyffredin iawn i rannau o'r cwrs P<sup>3</sup> gael eu defnyddio, heb achrediad.

*“Fel rhan o strategaeth y gweithlu (gofal plant a gwaith chwarae), rydym wedi datblygu cwrs DPP cyflwyniadol dros chwe wythnos (12 awr) mewn gwaith chwarae, sy'n arwain at P3 / L3, yn rhad ac am ddim .”*

*(Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)*

*“Mae'r cyngor yn rhoi hyfforddiant sylfaenol i'r gweithwyr hyn ar ffurf hyfforddiant generig a hyfforddiant seiliedig ar weithgareddau. Mae'n sicr yn un o'r anghenion ar gyfer y dyfodol y dylai hyn gynnwys egwyddorion chwarae. Mae hyfforddiant yn faes aneglur ar hyn o bryd.” Cyngor Sir Gwynedd*

- 4.42 Er ei fod yn beth cyffredin i gyflogwyr mewn awdurdodau lleol gomisiynu neu ddatblygu eu DPP neu hyfforddiant sefydlu eu hunain, mae'n beth llai cyffredin mewn sectorau eraill lle dibynnir yn aml ar ddefnyddio hyfforddiant sydd eisoes yn bodoli ac sydd wedi'i fwriadu ar gyfer sectorau eraill h.y. gofal plant, neu hyfforddiant a ddarperir gan y sefydliadau yn y sector megis CPOCKC. Mae rhai cyflogwyr yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol, fodd bynnag, yn mynd ati mewn ffordd ragweithiol i drefnu hyfforddiant i'w staff. Dywedodd rheolwr un Clwb All-ysgol ei bod yn trefnu i seicolegydd plant gynnal sesiwn i'r cyflogeion. Meddai: *“Mae CPOCKC yn cynnig cyrsiau'n lleol, ond nid ydynt yn cynnig cyrsiau mewn rheoli ymddygiad yn aml.”*
- 4.43 Mewn rhai ardaloedd, cynigir hyfforddiant mewn materion sy'n ymwneud yn benodol â gwaith chwarae, ond nid yw'r rhain yn hollgynhwysfawr ar unrhyw gyfrif. Mae testunau'r hyfforddiant penodol yn cynnwys: chwarae cynhwysol, chwarae amgylchedd ac elfennau, cynnwys pobl ifanc wrth ymgynghori, cylchoedd chwarae, ymyrraeth, hwyluso gemau, risg a thân, chwarae antur, gweithio mewn ardaloedd o amddifadedd a gweithio gyda phlant anabl. Dywedodd rhai rheolwyr yn y sectorau gwirfoddol a phreifat eu bod yn teimlo nad yw ansawdd yr hyfforddiant yn gyson o fewn sefydliadau hyfforddi.

### **DPP Traws-sector**

- 4.44 Nid dim ond addysg ar gyfer y sector gwaith chwarae sy'n allweddol i lwyddiant y Mesur Plant a Theuluoedd, ond addysg hefyd ar gyfer y sectorau hynny sy'n defnyddio gweithgareddau chwarae yn eu gwaith a gweithwyr proffesiynol a fydd yn dwyn yr effaith fwyaf ar ddatblygu manau y gall plant chwarae ynddynt ac amgylcheddau cymunedol lleol lle mae plant yn treulio cryn dipyn o amser yn eu plentyndod yn chwarae.

- 4.45 Mae pocedi o arfer da'n cael eu sefydlu trwy gyflenwi P<sup>3</sup> lle mae Swyddogion Datblygu Chwarae'n llwyddiannus wrth ddenu sectorau eraill i gymryd rhan mewn cymwysterau gwaith chwarae. Yng Nghaerffili mae cyrsiau sy'n cael eu rhedeg gyda gweithwyr chwarae, gweithwyr ieuenctid, goruchwylwyr amser cinio a swyddogion tân yn profi'n llwyddiannus iawn o ran newid agweddau ac arfer yn lleol. Yn Sir Benfro mae rhaglen sefydlu 'Cyflwyniad i Chwarae' wedi cael ei llunio ar gyfer staff ategol mewn ysgolion, ond gellid ei haddasu a'i theilwra ar gyfer staff sy'n gweithio mewn lleoliadau eraill, megis y Gwasanaeth Ieuenctid Gofal All-ysgol. Nid oes ar bawb sy'n gweithio gyda phlant angen hyfforddiant achrededig mewn gwaith chwarae.
- 4.46 Yn Lloegr, mae Play Shaper yn rhaglen datblygiad proffesiynol genedlaethol i uwch reolwyr sy'n gysylltiedig â chynllunio, dylunio a rheoli cymunedau. Mae digwyddiadau Play Shaper yn gyfle i awdurdodau lleol, Ymddiriedolaethau Plant a'u partneriaid gydweithio i ddeall pwysigrwydd chwarae plant ac i wella'u rôl o ran creu mannau cyhoeddus sy'n addas ar gyfer plant.
- 4.47 Mae'r rhaglen yn pwysleisio sut y gall buddsoddi mewn chwarae helpu i gyrraedd targedau a chyflawni blaenoriaethau gweithwyr proffesiynol ym maes cynllunio, iechyd a diogelwch, addysg, iechyd, adfywio, y sector gwirfoddol a chymunedol a'r heddlu. Mae'r rhaglen Play Shaper yn cael ei chyflenwi gan bartneriaeth dan arweiniad Play England, gyda Playwork Partnerships a SkillsActive, dan gontract i'r Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF).

## 5. Argaeledd a hygyrchedd Hyfforddiant a Chymwysterau Chwarae

- 5.1 Mae argaeledd a hygyrchedd hyfforddiant a chymwysterau ym myd chwarae'n ddibynnol ar nifer o ffactorau. Yn rhannol, bydd nifer y swyddi ym maes gwaith chwarae'n ysgogi galw am hyfforddiant fel y mae yn y rhan fwyaf o sectorau gwaith eraill; gall rheoleiddio chwarae rhan yn y galw fel y mae yn y sector gofal plant yn enwedig; mae argaeledd hyfforddiant yn lleol a thrwy amrywiaeth o lwybrau dysgu'n chwarae rhan; ac yn olaf, mae cost yr hyfforddiant yn ffactor pwysig mewn sector lle mae'r cyflogau'n isel ar y cyfan.

### ***Hyfforddiant Cymwysterau***

- 5.2 Oherwydd cymhlethdod y llwybrau cyllido a ddefnyddir i ariannu hyfforddiant chwarae, mae bron yn amhosib mesur faint o hyfforddiant cymwysterau a gyflenwir yng Nghymru.

### **Darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith**

- 5.3 Mewn nifer o sectorau, caiff cyllid ar gyfer dysgu seiliedig ar waith ei ddsbarthu gan APADGOS trwy'r rhwydwaith o golegau Addysg Bellach a darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL). Ym maes Gwaith Chwarae, bratiog iawn yw argaeledd cymwysterau trwy'r darparwyr hyn. Canfu arolwg o'r 24 o Golegau AB yng Nghymru, er bod pob un ohonynt yn gallu cyflenwi cyrsiau Gwaith Chwarae fel canolfannau achrededig, yn ymarferol, dim ond 6 oedd yn mynd ati'n weithredol i gyflenwi hyfforddiant. Roedd y rhain ar y cyfan yn golegau â chysylltiadau agos â'r awdurdod lleol (e.e. Coleg Sir Benfro). Dywedodd y colegau mai ychydig o alw oedd am gyrsiau Gwaith Chwarae a hyd yn oed os oedd galw, roedd rhai'n cael anawsterau dod o hyd i hyfforddwyr â chymhwysedd galwedigaethol addas i'w cyflenwi.
- 5.4 Wrth ymgynghori â chyflogwyr, canfuwyd fod argaeledd cymhwyster Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae'n broblem arbennig mewn nifer o ardaloedd:
- 5.5 Yng Ngheredigion, mae'r cwrs Lefel 3 agosaf yng Ngholeg Sir Benfro ac nid oes aseswyr lleol i ymweld â chyflogeion yn eu lleoliadau lleol. Nid yw cymhwyster NVQ Lefel 2 CACHE ar gael yng Ngheredigion ychwaith: *“Roedd gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs gyllid ar gyfer Lefel 2, ond mae'r cynlluniau hynny wedi mynd i'r gwellt”*. Yng Ngogledd Orllewin Cymru, nid oes cymwysterau Lefel 2 na Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae ar gael ar hyn o bryd yn yr ardal. I wneud iawn am hyn, mae'r Prosiect Isadeiledd yn hyfforddi rhai o'u hyfforddwyr eu hunain mewn P<sup>3</sup> er mwyn iddynt wedyn allu darparu hyfforddiant dwyieithog. Yn Sir Fynwy, dywedodd cyflogwyr, am nad oedd

cymwysterau Lefel 2 a 3 mewn Gwaith Chwarae ar gael yn lleol, bod staff â chymwysterau gofal plant ar Lefel 3 yn cael eu recriwtio i arwain lleoliadau chwarae. Yn yr un modd yng Nghasnewydd, dywedodd y swyddogion lleol ei bod yn anodd iawn dod o hyd i gwrs Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae, felly mae'n rhaid iddynt fodloni ar L3 Gofal Plant, sy'n ddiwylliant gwahanol iawn medden nhw ac felly mae'n bell o fod yn ddelfrydol.

### **Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs**

- 5.6 I'r sector all-ysgol, CPCKC fu'r prif ddarparwr hyfforddiant dros y blynyddoedd diwethaf mewn Gwaith Chwarae a phynciau cysylltiedig (gwybodaeth danategol i roi cymorth i weithwyr chwarae gyflawni'u rôl e.e. amddiffyn plant, cymorth cyntaf, iechyd a diogelwch yn ogystal â sgiliau busnes a sgiliau pwyllgora megis codi arian a gwiriadau iechyd busnes) yng Nghymru. Mae ffigyrau gan CPCKC yn awgrymu eu bod, dros y tair blynedd diwethaf, wedi cyflenwi hyfforddiant ar gyfer 5,436 o weithwyr chwarae ar gyfartaledd bob blwyddyn.
- 5.7 Fodd bynnag, mae nifer y cyrsiau achrededig mewn Hyfforddiant Gwaith Chwarae a ddarperir gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn sylweddol is ar gyfer 2009-10 nag oedd mewn blynyddoedd blaenorol. O 2005 tan 2008, roedd gweithwyr chwarae mewn clybiau all-ysgol yn y 15 sir Amcan 1 yn gallu cael mynediad at hyfforddiant am ddim a oedd yn cael ei gyllido gan Brosiect Clybiau Plant ESF. Yn ystod 2007-8, fe wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru gyllido nifer o gyrsiau gan CPCKC i gyflenwi hyfforddiant Gwaith Chwarae yn y siroedd Amcan 3. Fodd bynnag, yn ystod 2009-10, dim ond 4 o'r 22 Awdurdod Lleol oedd yn rhoi cyllid i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i gyflenwi cymwysterau CACHE mewn Gwaith Chwarae ac o ganlyniad dim ond 4 o gyrsiau cymwysterau a gyflenwyd yn 2009/10 o'i gymharu â 77 o gyrsiau yn 2007/08. Nid oes cynlluniau gan CPCKC i gyflenwi unrhyw hyfforddiant cymwysterau yn 2010 / 11.
- 5.8 O ystyried y diffyg hyfforddiant Gwaith Chwarae sydd ar gael trwy lwybrau dysgu seiliedig ar waith yn y brif ffrwd, mae'n annhebygol y bydd gweithwyr chwarae sy'n gweithio yn y mwyafrif o glybiau all-ysgol yn gallu cael mynediad at unrhyw hyfforddiant cymwysterau. O ystyried y gofynion rheoleiddiol ar gyfer clybiau, bydd hyn naill ai'n bygwth cynaliadwyedd y ddarpariaeth, neu, yn fwy tebygol, yn arwain at ddatgilio'r gweithlu gan na fydd dewis gan weithwyr chwarae ond gwneud cymwysterau gofal plant. Caiff y sefyllfa hon ei dwysau gan y ffaith nad oes Fframwaith Cymwysterau Gwaith Chwarae eglur y gall cyflogwyr ac AGGCC ei ddilyn.

### **Chwarae Cymru**

- 5.9 Mae Chwarae Cymru'n cyflenwi cyrsiau Diploma CACHE a Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P<sup>3</sup>). Rhwng Ionawr a Gorffennaf 2009, fe

gyflenwodd P<sup>3</sup> ar gyfer 215 o ddysgwyr. Bydd ffigyrau ar gyfer ail hanner y flwyddyn yn adlewyrchu'r ffaith bod P<sup>3</sup> yn dal i gael ei gyflenwi mewn sawl ardal yng Nghymru, ond mae P<sup>3</sup> yn amlwg yn gymhwyster newydd iawn, rhywbeth a adlewyrchir gan nifer y dysgwyr y mae'n eu cyrraedd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n debygol mai'r isadeiledd sy'n cael ei ddatblygu trwy P<sup>3</sup> yw'r agwedd bwysicaf gan fod angen sefydlu rhwydwaith o hyfforddwyr sy'n fedrus ac yn gymwys yn alwedigaethol. Ar ben hynny, mae Gwaith Chwarae Cymru wedi rhoi cymorth i Chwarae Cymru ddatblygu cais sylweddol am gyllid i Raglenni Cydgyfeirio ESF a fydd, os byddant yn llwyddiannus, yn cyfrannu'n sylweddol at yr isadeiledd ar gyfer cyflenwi a datblygu cymwysterau gwaith chwarae yng Nghymru dros y 3 blynedd nesaf a thu hwnt. Os bydd y cyllid ar gyfer Gwaith Chwarae Cymru'n parhau, bydd yn ychwanegu cyllid cyfatebol sylweddol at gronfa sy'n werth rhwng £6 ac £8 miliwn yn ogystal ag ychwanegu gallu allweddol bwysig at y rhaglen honno a fydd yn rhoi cymorth i ddarparu cymwysterau ar gyfer dros 3000 o ddysgwyr.

### **Addysg Uwch**

- 5.10 Mae cyrsiau Addysg Uwch, un o'r llwybrau posib ar gyfer DPP trwy raglenni gwaith chwarae, yn gyfyngedig yng Nghymru. Ar hyn o bryd, Prifysgol Glyndŵr sy'n cyflenwi'r unig raglen BA (Anrh) mewn gwaith chwarae yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn ei hail flwyddyn, ac mae'n argoeli'n gaffaeliad gwych i waith chwarae, ac mae personél y rhaglen yn ymgysylltu'n helaeth â'r sector trwy strwythurau pwyllgorau, cyfleoedd DPP a gefnogir megis Fforymau'r Gweithwyr Chwarae Antur a chyfrannu at gynadleddau yn y sector.
- 5.11 Fodd bynnag, o safbwynt lleoliad yn unig, ni all un Brifysgol wasanaethu Cymru gyfan oni bai fod darpariaeth dysgu o bell yn rhan o'r rhaglen, ac nid yw hynny o anghenraid yn gweddu i bob dysgwr. Er bod rhai dysgwyr yn dilyn rhaglenni dysgu o bell ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw, mae tystiolaeth anecdotaidd gan golegau a dysgwyr eu hunain yn awgrymu bod gweithwyr chwarae ar hyn o bryd yn mynychu rhaglenni eraill sy'n ymwneud, er enghraifft, â Gwaith Ieuencid neu'r Blynyddoedd Cynnar, a'u bod yn aml yn ceisio addasu aseiniadau i weddu i'w hymarfer ac yn datblygu'r ehangder meddwl angenrheidiol. Yn ddiweddar, mae Gwaith Chwarae Cymru wedi sefydlu Pwyllgor Addysg Uwch i roi cymorth ac anogaeth i gyflenwi rhaglenni gwaith chwarae mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru.
- 5.12 Nid Addysg Uwch yw'r unig ddatrysiad ac mae Gwaith Chwarae Cymru, mewn ymgynghoriad â'r sector, wedi datblygu strategaeth DPP i roi anogaeth i ddatblygu a derbyn cyfleoedd DPP, ond gyda chyn lleied o gyllid ar gael i gyflenwi cymwysterau ar gyfer y sector, nid yw cyfleoedd DPP yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth.



## Safbwyntiau Cyflogwyr

- 5.13 Dywedodd cyflogwyr fod ansawdd yr hyfforddiant yn gallu bod yn anghyson ac weithiau'n wael, yn enwedig pan nad yw cymwysterau'n cael eu hachredu. Gall hyn ddwyn effaith ar y sector gwaith chwarae'n lleol o ran amgylcheddau chwarae gwael. Gwnaeth un swyddog prosiect isadeiledd y sylw bod y coleg lleol, sy'n cynnig cymwysterau Lefel 2 a Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae, wedi canfod wrth chwilio am leoliadau i fyfyrwyr nad yw'r ddarpariaeth chwarae yn ardal yr awdurdod lleol o safon ddigonol i'w defnyddio ar gyfer lleoliadau.
- 5.14 Gall amseriad y cyrsiau effeithio ar nifer y gweithwyr sy'n dilyn y cyrsiau ac roedd rhai awdurdodau'n teimlo nad oedd anghenion penodol gweithwyr yn cael eu hystyried:

*“Mae hyfforddiant yn cael ei gynnig yn ystod y dydd, sef yr amser anghywir i'n gweithwyr ni. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt swyddi eraill yn y dydd.” (Pen-y-bont ar Ogwr)*

- 5.15 Gall pellter o ganolfannau hyfforddi fod yn rhwystr i gael mynediad at hyfforddiant hefyd. Er enghraifft, mae angen i weithwyr yn Ynys Môn deithio i Fangor ar y tir mawr i gael hyfforddiant gwaith chwarae.
- 5.16 Mynegodd rhai rheolwyr hyfforddiant eu rhwystredigaeth bod cyrsiau hyfforddi weithiau'n methu â rhedeg am nad oes digon o bobl wedi cofrestru. *“Mae arnom angen ymrwymiad gan weithwyr i ymgymryd â'r hyfforddiant.”* Fodd bynnag, dywedodd nifer o weithwyr eu hunain bod cyfyngiadau arnynt o ran faint o sesiynau hyfforddi y maent yn gallu eu mynychu yn eu hamser eu hunain a faint o hyfforddiant maent yn dymuno'i dderbyn beth bynnag ar gyfer swydd ran-amser â chyflog isel. Dywedodd rhai cyflogwyr ei bod yn llawer gwell ganddynt hyfforddiant mewnol (gyda hyfforddwyr allanol) a oedd wedi'i deilwra i anghenion eu sefydliad a'u gweithwyr penodol hwy, heb fod angen teithio'n bell ar ddiwedd y dydd. Mae hon yn broblem benodol i ardaloedd gwledig.
- 5.17 Mae diffyg argaeledd hyfforddwyr yn yr ardal leol yn cyfyngu ar yr hyfforddiant sydd ar gael i weithwyr ac mae cyflogwyr yn ei chael yn rhwystredig pan fo hyfforddiant ar gael i rai ond nid i eraill, naill ai am resymau sy'n ymwneud â chyllid neu am resymau sefydliadol:

*“Gall fod hyfforddwyr cymwys mewn sectorau gwaith chwarae eraill, ond nid ydynt wastad yn rhydd i gyflenwi hyfforddiant y tu allan i'w sefydliadau.”*

*“Mae hyfforddwyr mor brin ac ni fu erioed cymaint o angen am hyfforddiant chwarae. Gallwn gynnig yr hyfforddiant generig sylfaenol ond nid yr hyfforddiant sy'n fwy penodol i'r sector, megis materion anabledd ac ymddygiad anodd.”*

- 5.18 Mae'r sefyllfa o ran cyllid ar gyfer hyfforddiant ledled ardaloedd awdurdodau lleol Cymru'n gwbl anghyson, ac yn dibynnu ar ffrydiau cyllid ar gyfer gwahanol

fentrau, pa un a yw gwahanol bocedi o gyllid wedi cael eu defnyddio'n greadigol ai peidio ac a oes partneriaethau wedi cael eu ffurfio â sefydliadau chwarae eraill.

*“Mae'r ffrydiau cyllido ar gyfer gwahanol awdurdodau lleol mor anwadal. Os bydd cyllid Cymorth yn dod i ben, byddwn yn ôl ble'r oeddem o'r blaen.”  
(Sir y Fflint)*

- 5.19 Mewn sawl ardal, mae toriadau cyllidebol wedi effeithio ar gyllidebau ar gyfer hyfforddiant a dim ond hyfforddiant generig statudol y byddant yn ei gynnig i weithwyr. Meddai un Swyddog Chwarae: *“Mae ein holl anghenion hyfforddiant heb eu diwallu, am nad oes cyllideb ar gyfer hyfforddiant.”*
- 5.20 Yn y sector gwirfoddol a'r sector preifat, dywedodd nifer o gyflogwyr eu bod yn ei chael yn wirioneddol anodd hyfforddi eu staff oherwydd bod cyllideb CPC wedi dod i ben. Meddai un rheolwr clwb all-ysgol: *“Roedd CPC yn arfer cynnig rhaglen hyfforddi dda, gydag amrywiaeth o gyrsiau defnyddiol megis egwyddorion ac arfer a chynhwysiant ym myd chwarae, ond yn awr mae'r cyllid wedi mynd.”*

### **Safbwyntiau Gweithwyr Chwarae**

- 5.21 Roedd y farn am ddigonolrwydd mynediad at gyfleoedd hyfforddiant chwarae'n amrywio rhwng y gweithwyr chwarae y rhoddwyd cyfweliad iddynt. Roedd rhai pobl o'r farn bod digon o gyfleoedd hyfforddiant yn eu hardal/ sefydliad tra bod eraill wedi nodi rhai rhwystrau allweddol i hyfforddiant. Y rhai a nodwyd ar y cyfan oedd: diffyg cyllid (yn enwedig ar gyfer y sector preifat a'r sector gwirfoddol); daearyddiaeth (e.e. diffyg hyfforddiant yn Sir Gâr, Sir Fynwy ac Ynys Môn); amseriad yr hyfforddiant; gwybodaeth ac argaeledd cyffredinol.

*“Nid yw'r gost yn effeithio arnom ni yng Nghaerdydd gan ein bod yn cyflenwi ac yn rhedeg CACHE ond nid P3 (mae'n rhy hir a drud i'w gyflenwi, ac mae'n cymryd gormod o amser i gael y dyfarniad terfynol.) Nid yw'r colegau'n meddwl bod cyflenwi hyfforddiant gwaith chwarae'n ddewis da – mae gofal plant yn ddewis gwell. Mae Coleg Glan Hafren wedi rhoi'r gorau i ddarparu cyrsiau gwaith chwarae. Yr agosaf at Gaerdydd yn awr yw'r Barri i bobl sy'n dymuno gwneud gwaith chwarae.”*

*“Rwy'n meddwl bod llawer ar gael yng Nghaerdydd (P3 Chwarae Cymru), Adran Chwarae'r ALL (CACHE lefelau 2 a 3). Cyllid yw'r prif rwystr. Bydd adran chwarae'r Cyngor yn talu am hyfforddiant. Yn y sector gwirfoddol mae angen talu drosoch eich hunain. Mae'n weddol ddrud, ceir diffyg cymorth gan gyflogwyr o ran amser i hyfforddi, lleoliadau, gwaith cartref gyda rhai cyflogwyr. Mae lleoliadau yn y sector gwirfoddol yn rhan-amser neu'n wirfoddol. Byddai mwy o hyblygrwydd neu gymorth yn helpu. Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau'n rhedeg yn ystod y dydd. Mae un sy'n rhedeg gyda'r nos yn y Barri ond dydw i ddim yn siŵr am Gaerdydd.”*

*“Yn lleol mae'n anodd. Dydw i ddim yn gwybod beth sydd ar gael. Gall teithio a'r lleoliad fod yn broblem. Mae Powys yn ynysig yn ddaearyddol. Dim prifysgolion a dim ond ychydig o golegau AB. Hyfforddiant gofal plant ond mae argaeledd hyfforddiant gwaith chwarae'n gyfyngedig.”*

*“Rhwystrau ariannol yw'r rhai mwyaf ar hyn o bryd. Cynigir cymhwyster lefel 2 ac mae'n anodd i gyflogwyr sy'n ei chael yn anodd yn ariannol.”*

*“Dim digon o hysbysebu. Ddim yn ddigon gweladwy.”*

*“Na, goblygiadau o ran cost i sefydliadau fel ninnau. Gellir cael hyfforddiant cymorthdaledig ar gyfer Cynorthwyrwyr Addysgu a gofal plant ond mae chwarae'n cael ei anwybyddu bob tro. Mae pob bwrdeistref yn hyfforddi gweithwyr gofal plant ond nid oes posibilrwydd o gael mynediad at grantiau ar gyfer gwaith chwarae ac mae hynny'n cyfyngu ar yr hyn y gallwn ei ddarparu.”*

*“Ddim yng ngogledd Cymru, dim byd ar gael ar Ynys Môn, rhaid teithio. Amseriad y cyrsiau hyfforddi'n peri anhawster. Mae'n anodd cyfuno swydd gyda hyfforddiant ar y tir mawr os yw rhywun yn gweithio. Dim byd ar gael am y 10 mlynedd ddiwethaf ar Ynys Môn. Mae pethau wedi gwella ond mae'r sefyllfa'n dal heb fod yn dda iawn.”*

*“Mae'r gost yn rhwystr. Weithiau mae'n rhaid talu am dystysgrif. Gellir gwneud yr hyfforddiant ond ni ellir cael tystysgrif os na allwch fforddio £150.”*

## **Gwaith Chwarae Cymru, Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae**

- 5.22 Nodau cyffredinol y Ganolfan Genedlaethol yw darparu isadeiledd ar gyfer y canlynol mewn perthynas â hyfforddiant ac addysg: datblygu a chyflenwi, cydlynu strategol, hyfywedd a chynaliadwyedd, rhwydweithio, lledaenu gwybodaeth, cyfathrebu a sicrhau ansawdd.
- 5.23 Mae gweledigaeth y Ganolfan Genedlaethol o ran datblygu isadeiledd i gyflenwi cymwysterau wedi bod yn seiliedig yn bennaf ar gynnal yr isadeiledd presennol a chreu cysylltiadau lle mae bylchau o ran yr hyn a gyflenwir gan roi pwyslais ar ddatblygu'r gallu lleol i gyflenwi.
- 5.24 Mewn ymateb i ofynion rheoleiddiol, mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi gweithio gyda Chyngor Gofal Cymru ac APADGOS i sefydlu rhestr o gymwysterau ar gyfer gwaith chwarae yng Nghymru. Gall cymwysterau yn y rhestr hon ddod yn gymwysterau rhagflaenol pan fydd y newidiadau i Fframweithiau Cymwysterau'r DU yn cael eu cwblhau. Bydd yn ofynnol i'r holl gymwysterau newydd gydymffurfio â'r egwyddorion dylunio a gytunwyd gan y Cynghorau Sgiliau Sector.
- 5.25 Mae'r Ganolfan Genedlaethol hefyd wedi gwneud gwaith i sefydlu ymhellach y rhwydweithiau i ategu datblygiad y gweithlu. Mae'n sefydlu perthnasoedd newydd gyda cholegau AB yng Nghymru; gan gynnwys ychydig o rai sydd ar hyn o bryd yn cyflenwi cymwysterau gwaith chwarae a rhai nad ydynt yn gwneud hynny. Y prif fwriad yw hwyluso perthnasoedd lleol rhyngddynt hwy a gweithwyr datblygu chwarae a dod â hwy ynghyd o fewn rhwydwaith cyfathrebu Cymru-gyfan.
- 5.26 Mewn ymateb i'r anghenion a fynegwyd gan y sector, mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi bod yn rhoi cymorth i gyflogwyr a Swyddogion Datblygu Chwarae ledled Cymru i gyflenwi P<sup>3</sup> a CACHE. Mae rhai rhanbarthau bellach yn dechrau gweithio mewn partneriaeth â cholegau AB fel rhan o'u datrysiad lleol i gyflenwi P<sup>3</sup>.

- 5.27 Mae cryn dipyn o ffocws y Ganolfan Genedlaethol wedi bod ar P<sup>3</sup> am y rhesymau a nodir uchod, gan gynnwys ei statws o fewn Strategaeth y Cyngor Sgiliau Sector, y cymorth ychwanegol a ddarperir o ran isadeiledd i sefydlu strwythurau cymwysterau newydd, llwyddiant cynyddol cydnabyddiaeth cyflogwyr a'r ffynonellau cyllido sydd ar gael.
- 5.28 Er bod y cyllid yn gyfyngedig, mae wedi bod ar gael i gynnig cymwysterau Hyfforddwyr ac Aseswyr yn ogystal â DPP penodol. Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi sefydlu rhwydwaith o hyfforddwyr ac aseswyr sy'n cynnwys 40 o ymarferwyr sy'n gymwys i gyflenwi ac asesu cymwysterau gwaith chwarae, ar ffurf P<sup>3</sup> a CACHE. Mae'r Ganolfan Genedlaethol ar hyn o bryd yn ystyried ffyrdd o ehangu cyfranogiad yn y rhwydwaith hwn i roi cymorth i eraill sy'n cyflenwi hyfforddiant gwaith chwarae gan gynnal yr ansawdd a'r trylwyredd i allu cyflenwi P<sup>3</sup>.
- 5.29 Un dasg allweddol a nodwyd yng Nghynllun Cyflawni'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer 2006-2011 yw gweithio gydag asiantaethau eraill i ddatblygu perthnasoedd gweithio da. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Gyrfa Cymru, Canolfan Byd Gwaith, LearnDirect, Sgiliau Sylfaenol Cymru, CVLS, WCVA ac eraill i fynd i'r afael â materion recriwtio a chadw, yn enwedig mewn perthynas â'r ystod oedran 14 – 19/25. Mae cyfle arwyddocaol i gryfhau cysylltiadau rhwng y Ganolfan Genedlaethol a Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr/Pobl Ifanc/sefydliadau AB a darparwyr hyfforddiant gwaith chwarae i wella'r cyfleoedd a'r potensial i bobl ifanc trwy'r llwybrau dysgu 14-19.
- 5.30 Mae gan y Ganolfan Genedlaethol gynrychiolaeth ar Gyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru, pwyllgor sefydlog SkillsActive ar gyfer polisi a strategaeth gwaith chwarae ar gyfer y Cyngor Sgiliau Sector yng Nghymru. Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys cynrychiolaeth hefyd o:
- SkillsActive
  - Chwarae Cymru
  - Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
  - Cyflogwyr mewn Awdurdodau Lleol, ac yn y sectorau gwirfoddol a phreifat
  - CLILC
  - Yr Uned Cefnogi Partneriaethau
  - Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru
  - Sefydliadau AB ac AU
- 5.31 Mae rheolwr y Ganolfan Genedlaethol yn mynychu Rhwydweithiau Swyddogion Chwarae Cymru – Gogledd a De, Rhwydwaith y Gweithlu Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Pwyllgor Sgiliau Sylfaenol Cymru ac mae'n

cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda rhwydweithiau rhanbarthol gan gynnwys y sector gwirfoddol, awdurdodau lleol ac AB. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i archwilio'r posibilrwydd o gynnwys cynrychiolaeth o'r Ganolfan Genedlaethol ar rai grwpiau Nodau Craidd mewn perthynas â'r Cynlluniau Sengl Plant a Phobl Ifanc.

5.32 Mae Pwyllgor y Ganolfan Addysg a Hyfforddiant Genedlaethol, sy'n gyfrifol am ei rheoli a'i chyfarwyddo, wedi cael ei sefydlu, ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o'r canlynol:

- Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru
- Chwarae Cymru
- Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
- SkillsActive
- Rhwydweithiau cyflogwyr.

5.33 Mae Pwyllgor Addysg Uwch sy'n cynnwys cynrychiolaeth o 5 SAU yng Nghymru wedi cael ei sefydlu hefyd; ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o Brifysgol Swydd Gaerloyw er mwyn cydnabod nifer y myfyrwyr o Gymru sydd ar raglenni dysgu o bell.

5.34 Mae gan y Ganolfan Genedlaethol wefan ddwyieithog sefydledig sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd â newyddion a gwybodaeth. Mae'n gweithio gyda'r tîm ehangach yn Chwarae Cymru i gyflenwi cyfres o gynadleddau a seminarau mewn perthynas â datblygu'r gweithlu ar gyfer y sector. Yn y seminar diweddaraf y mis hwn, fe ymgynghorodd ynghylch Strategaeth Gyfathrebu newydd sydd wrthi'n cael ei llunio ar hyn o bryd. Mae'r strategaeth arloesol hon yn seiliedig ar adduned gyfathrebu, sef bod unigolion yn addo rhannu gwybodaeth a chyfathrebu, gydag addewidion clir mewn methodolegau cyfathrebu, yn rheolaidd a.y.b., yn ogystal â phenderfynu ar yr wybodaeth allweddol a fydd yn cael ei rhannu gan y rhwydweithiau. Mae'n defnyddio dull gwahanol mewn perthynas â chyfathrebu a fydd yn cael ei werthuso i weld pa mor llwyddiannus ydyw.

5.35 Ceir amrywiaeth o ran faint o gyswllt a fu rhwng gweithwyr chwarae eu hunain a'r Ganolfan Genedlaethol hyd yn hyn gyda 43% o'r rheiny y rhoddwyd cyfweiliad iddynt yn dweud eu bod wedi clywed am y Ganolfan Genedlaethol. Fodd bynnag, cafwyd ymateb cymysg gan y rheiny a ddywedodd eu bod wedi clywed am y Ganolfan Genedlaethol o ran eu dealltwriaeth am yr hyn y mae'n ei wneud.

*“Rhywbeth a all fod yn gymorth ac yn fan cyfeirio ar gyfer gwaith chwarae. Rhywbeth da o ran rhoi cymorth i'r rheiny sy'n sefydlu gweithgareddau chwarae mewn ardal.”*

*“Man canolog lle caiff yr holl anghenion hyfforddiant eu diwallu o ran cyrsiau, hyfforddwyr, cymwysterau hyfforddwyr, cefndir hyfforddwyr.”*

*“Hyrwyddo gwaith chwarae a rhoi cymorth i weithwyr chwarae.”*

*“Nid canolfan ffisegol mohoni, mae a wnelo â dysgu a datblygu, hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae. Mae ganddi fframwaith P3.”*

*“Mae’n bodoli er mwyn hyrwyddo gwaith chwarae, nid dim ond y sector chwarae ond proffesiynau cysylltiedig a chanddynt ddiddordeb. Mae’n cyfeirio pobl at gyrsiau/gyrfaoedd mewn gwaith chwarae. Mae’n cydgomisiynu gwaith chwarae i wneud i’r arian fynd ymhellach. Mae’n hyrwyddo statws, tâl a gwybodaeth am yrfaedd mewn gwaith chwarae.”*

*“Rhoi cymorth a rhoi llenyddiaeth/arweiniad, rhestrau o hyfforddwyr, ein helpu i lunio pecynnau hyfforddi. Mae Chwarae Cymru wedi ymgymryd â rôl swyddog hyfforddiant o bell ar ein rhan (nid yw’r gallu gennym yn fewnol).”*

*“Mae’n darparu gwybodaeth a hyfforddiant ac yn monitro cymwysterau mewn gwaith chwarae.”*

*“Mae’n cyflenwi P3, yn rhedeg cyrsiau i hyfforddwyr ac aseswyr, cyrsiau a chynadledau, yn rhoi cymorth i sefydliadau a staff datblygu chwarae ledled Cymru.”*

- 5.36 Cymysg oedd yr ymatebion o ran y canfyddiadau am ddefnyddioldeb y Ganolfan Genedlaethol. Roedd tua thraean o’r cyfweleion yn teimlo y gallai’r Ganolfan Genedlaethol fod o gymorth iddynt mewn rhyw ffordd. O blith y rheiny a ddywedodd eu bod yn teimlo y gallai’r Ganolfan Genedlaethol fod o gymorth, roedd yr ymatebion yn canolbwyntio’n bennaf ar y canlynol: darparu gwybodaeth; cyngor; gwasanaeth cyfeirio a hyfforddiant. Mewn perthynas â hyfforddiant fe wnaeth un ymatebydd y sylw canlynol am y Ganolfan Genedlaethol:

*“Gallai fod yn ddefnyddiol ar gyfer arfer da a rhannu gwybodaeth. Rhoi cyhoeddusrwydd i gyrsiau ond mae angen gallu cael mynediad atynt heb unrhyw gostau / am gostau mor isel â phosib. Llauer o sôn am gyflenwi hyfforddiant ar gyfer gweithio gyda phlant bach ond mae’n rhatach brolio na thalu. Dim byd ond siarad gwag.”*

## 6. Fframwaith Cymwysterau Gwaith Chwarae

- 6.1 Mae Polisi Chwarae Llywodraeth y Cynulliad yn sôn am godi statws y proffesiwn gwaith chwarae a sicrhau bod gweithwyr chwarae yng Nghymru'n cael profiadau dysgu o ansawdd fel rhan o'u datblygiad proffesiynol. Yn ogystal â hynny, bydd y Mesur Plant a Theuluoedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheiny mewn sectorau eraill sydd naill ai'n defnyddio gweithgareddau chwarae yn eu gwaith, neu y mae arnynt angen dealltwriaeth am chwarae, i gael mynediad at hyfforddiant a chymwysterau fel bod chwarae plant yn cael ei hwyluso'n dda ble bynnag y bydd plant yn dewis chwarae.
- 6.2 Mae ar bob sector galwedigaethol angen fframwaith cymwysterau cynhwysfawr i'w gwneud yn bosib datblygu'r gweithlu. Ar gyfer gwaith chwarae yng Nghymru, mae angen i fframwaith cymwysterau gynnwys pob lefel o'r cyfnod sefydlu cychwynnol i raddau uwch.
- 6.3 Mae SkillsActive wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Gofal Cymru ac APADGOS i sefydlu Rhestr o Gymwysterau a Dderbynnir ar gyfer y Gweithlu Chwarae yng Nghymru (gweler Atodiad 1). Gall y bydd cymwysterau yn y rhestr hwn yn dod yn gymwysterau rhagflaenol pan fydd y newidiadau i Fframweithiau Cymwysterau'r DU yn cael eu cwblhau. Bydd yn ofynnol i'r holl gymwysterau newydd gydymffurfio â'r egwyddorion dylunio a gytunwyd gan y Cynghorau Sgiliau Sector.
- 6.4 Fel gyda'r *Rhestr o Gymwysterau a Dderbynnir ar gyfer y Gweithlu Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru*, yr unig gymwysterau a gydnabyddir gan y rhestr o gymwysterau Gwaith Chwarae fel rhai derbyniol yw'r rheiny sy'n cynnwys elfennau o asesiad galwedigaethol ac mae'n enwi cymwysterau eraill sy'n alwedigaethol ond nad ydynt yn cynnwys asesiad seiliedig ar waith. Mae hwn yn wahaniaeth pwysig y gellir ei ddefnyddio i helpu cyflogwyr a chyrrff rheoleiddio fel ei gilydd. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd fel rhestr gyfeirio gan arolygwyr AGGCC, sy'n arwain at ddryswch a diraddio hyfforddiant chwarae ymhellach wrth i arolygwyr ddweud wrth gyflogwyr am chwilio am gymwysterau blynnyddoedd cynnar a gofal plant ar gyfer gweithwyr mewn lleoliadau rheoleiddiedig.
- 6.5 Ar ben hynny, gan nad yw'r Fframwaith ond yn cynnwys cymwysterau ar Lefel 2 a Lefel 3, ni ellir ei ystyried yn fframwaith cymwysterau cynhwysfawr. Er mwyn cwrdd â'r dyheadau ym Mholisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae angen fframwaith sy'n cydnabod llwybrau o gymwysterau Lefel Mynediad i gymwysterau Lefel 6 neu 7, yn unol â *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*. Bydd angen i'r fframwaith hefyd gydnabod amrywiaeth y gweithlu chwarae wrth ddarparu cyfleoedd dysgu priodol ar gyfer gweithwyr â rolau gwahanol mewn ystod o leoliadau. Er y dylai egwyddorion sylfaenol gwaith chwarae da fod yn bresennol ym mhob rhaglen hyfforddi ac asesu, dylai'r

modd y cyflenwir hyfforddiant a strwythur yr hyfforddiant fod yn hyblyg er mwyn diwallu anghenion gwahanol weithwyr.

- 6.6 Yr hyn sy'n allweddol i gymhwysedd y rheiny â chymwysterau blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n gweithio ym myd chwarae yw argaeledd cynyddol a nifer cynyddol y rhai sy'n ymgeisio am ddyfarniadau trosiannol megis *Dyfarniad Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae ar gyfer Gweithwyr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*. Er bod y dyfarniad hwn wedi'i gynnwys ar y rhestr gyfredol o gymwysterau, nid yw'r fframwaith rheoleiddiol yn cynnig unrhyw gymhelliad i ymarferwyr ymgymryd ag ef. O ganlyniad, nid yw ar gael yn gyffredin yng Nghymru.
- 6.7 Mae angen i fframwaith cymwysterau ar gyfer Gwaith Chwarae fod yn ystyriol o'r angen i gydweddu â fframwaith cymwysterau mwy integredig ar gyfer y gweithlu plant a phobl ifanc fel a gynigir gan y fersiwn ddrafft o'r *Strategaeth ar gyfer y Gweithlu Plant a Phobl Ifanc* a ddatblygwyd gan *Rwydwaith Datblygu'r Gweithlu Plant a Phobl Ifanc* yn 2009. Bydd y dull hwn yn golygu bod angen datblygu modiwlau cyffredin mewn gwaith chwarae y gellir eu defnyddio ar draws ystod o feysydd galwedigaethol. Dylai rhai o'r rhain fod yn gysylltiedig â dyfarniadau ffurfiol a gydnabyddir gan gyrff rheoleiddio (megis y *Dyfarniad Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae ar gyfer Gweithwyr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*) tra bydd angen i eraill gael eu datblygu i alluogi gweithwyr proffesiynol o bob rhan o'r gweithlu plant a phobl ifanc i gael eu haddysgu am hanfodion egwyddorion ac arfer mewn gwaith chwarae ar wahanol lefelau.
- 6.8 Ceir cynllun penodedig ar gyfer fframwaith cymwysterau gwaith chwarae yn Ffigur 3.



Ffigur 3: Cynllun Penodedig ar gyfer Fframwaith Cymwysterau Gwaith Chwarae

Lefel yn FfCaChC	Cymwysterau Galwedigaethol	Dyfarniadau neu Fodiwlau Cysylltiedig ar gyfer rhai nad ydynt yn Weithwyr Chwarae
<b>Mynediad / Lefel 1</b>	<i>Cwrs Sefydlu Gwaith Chwarae*</i>	<i>Cyflwyniad i Egwyddorion ac Arfer mewn Gwaith Chwarae*</i>
<b>Lefel 2</b>	NVQ Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae  Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae  Lefel 2 Gwaith Chwarae (Rhoi Egwyddorion ar Waith) P <sup>3</sup>	<i>Dyfarniad Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae i Weithwyr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*</i>  <i>Modiwl Egwyddorion ac Arfer mewn Gwaith Chwarae i Weithwyr Plant a Phobl Ifanc ar Lefel 2*</i>
<b>Lefel 3</b>	NVQ Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae  Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae  <i>Lefel 3 Gwaith Chwarae (Rhoi Egwyddorion ar Waith) P<sup>3*</sup></i>	<i>Dyfarniad Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae i Weithwyr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant</i>  <i>Modiwl Egwyddorion ac Arfer mewn Gwaith Chwarae i Weithwyr Plant a Phobl Ifanc ar Lefel 3*</i>
<b>Lefel 4-5</b>	<i>Gradd Sylfaen mewn Gwaith Chwarae</i>	<i>Modiwl Egwyddorion ac Arfer mewn Gwaith Chwarae i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl Ifanc *</i>
<b>Lefel 6</b>	Gradd mewn Gwaith Chwarae	

\* Ddim ar gael ar hyn o bryd



## 7. Crynodeb ac Argymhellion

- 7.1 Mae'r adolygiad hwn yn cynnig golwg fanwl ar hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae yng Nghymru. Trwy ymgynghori ag ymarferwyr, cyflogwyr a rhanddeiliaid mae wedi bod yn bosib canfod ystod o fylchau a blaenoriaethau y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn cwrdd â dyheadau Cynulliad Cymru ar gyfer y Gweithlu Chwarae ac er mwyn datblygu isadeiledd i ategu'r Mesur Plant a Theuluoedd.

### **Polisi Chwarae**

- 7.2 Mae ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i Chwarae'n eglur, fel a nodir yn y Polisi Chwarae, Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae, a'r Mesur Plant a Theuluoedd. Er mwyn cyflawni'i hymrwymiaidau, mae angen i Lywodraeth y Cynulliad roi cymorth i ddatblygu gweithlu medrus, hyfforddedig a chymwys sy'n gallu cwrdd ag anghenion chwarae plant a phobl ifanc. Mae cynnydd mewn perthynas â Chynllun Cyflawni Polisi Chwarae Llywodraeth y Cynulliad wedi cael ei wneud mewn sawl cyfeiriad, ond mae'n amlwg bod cryn dipyn heb ei wneud.
- 7.3 Nid oes amheuaeth y bydd y ddyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer anghenion chwarae plant fel a nodir yn y Mesur Plant a Theuluoedd yn dwyn effaith anferth ar y sector ac ar y gweithlu. Ni allwn ond dyfalu ar hyn o bryd beth fydd canlyniadau'r Mesur i'r gweithlu, ond er mwyn cyflawni'r ddyletswydd bydd angen cynnydd sylweddol o ran faint o waith chwarae sy'n digwydd ac felly o ran faint o hyfforddiant chwarae sy'n digwydd.
- 7.4 Mae Cylch 1 y Rhaglen Chwarae Plant a ariennir gan y loteri'n rhoi cymorth i ddatblygu isadeiledd lleol sydd â'r potensial i gynnal y broses o gyflenwi hyfforddiant chwarae. Mae'n anorfod y bydd Cylch 2 yn cynyddu'r galw am hyfforddiant chwarae ymhlith gweithwyr proffesiynol ym maes chwarae a phroffesiynau eraill, ymhlith grwpiau cymunedol ac ymhlith gwirfoddolwyr.
- 7.5 Mae datblygu'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Hyfforddiant ac Addysg Gwaith Chwarae'n rhan allweddol o ddatblygu isadeiledd hyfforddiant chwarae i ategu'r Cynllun Cyflawni, y Mesur Plant a Theuluoedd a Rhaglen Chwarae Plant y Gronfa Loteri Fawr.

### **Darpariaeth Chwarae**

- 7.6 Mae chwarae fel proffesiwn sy'n datblygu'n cynnwys pobl sy'n gweithio mewn amrywiaeth eang o rolau, mewn swyddi â gwahanol gyfrifoldebau ac mewn ystod o leoliadau. Yn wahanol i nifer o feysydd gwaith eraill, nid grŵp homogenaidd yw gweithwyr chwarae felly mae angen i ni archwilio gwaith chwarae mewn termau llawer ehangach sy'n cynnwys ystod o alwedigaethau a

---

phroffesiynau sydd â'r potensial i ddylanwadu ar chwarae plant ac sydd felly'n galw am ddealltwriaeth am werthoedd chwarae.

- 7.7 Mae'n debygol bod tua 5,000 o bobl yn gyflogedig fel gweithwyr chwarae yng Nghymru ond bydd miloedd yn fwy sy'n defnyddio chwarae fel rhan o'u gwaith mewn meysydd eraill. Maent yn gweithio mewn ystod eang o sefydliadau sy'n cwmpasu nifer o sectorau. Mae'r rhain yn cynnwys gofal plant all-ysgol; cynlluniau chwarae yn y gwyliau; chwarae antur; darpariaeth chwarae mynediad agored; a chwarae cymunedol.
- 7.8 Mae anghysondeb ar hyn o bryd o ran y dull o weithredu a ddefnyddir gan awdurdodau lleol yng Nghymru mewn perthynas â chwarae. Er bod pocedi o arfer da'n datblygu mewn ardaloedd megis Wrecsam a Chaerffili, mewn nifer o ardaloedd nid yw chwarae'n cael ei ddeall yn glir na'i werthfawrogi. Nid yw pob awdurdod lleol yn cynnig arweinyddiaeth strategol mewn perthynas â chwarae ac mae diffyg ymrwymiad ar lefel uwch yn yr awdurdod lleol mewn nifer o ardaloedd. Yn aml mae'n aneglur i ba ran o'r awdurdod mae chwarae'n 'perthyn' ac mae hynny'n arwain at ddull anghyd-drefnus. Oherwydd bod ffocws ar y Blynyddoedd Cynnar yn unig mewn rhai ardaloedd mae cyflogwyr gwaith chwarae mewn nifer o ranbarthau'n dweud eu bod yn methu â chael mynediad at arian Dechrau'n Deg ar gyfer hyfforddiant chwarae (er bod hyn wedi'i nodi'n eglur fel un o'r disgwyliadau ar gyfer y gronfa hon yng nghanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru). Mae mynediad at gymorth, cyllid a gwaith traws-sectoraidd yn amlwg yn hynod ddibynnol ar gynrychiolaeth o'r sector chwarae ar Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc.
- 7.9 Mae awdurdodau lleol yn ddarparwyr chwarae a chyflogwyr gweithwyr sylweddol – er bod y sefyllfa'n amrywio'n eang ledled Cymru. Dylai'r rheiny sydd eisoes yn ymrwymedig i gyflenwi, cydlynu neu gomisiynu cyfleoedd chwarae ei chael yn llai anodd cwrdd â'r Mesur. Lle nad yw chwarae'n cael ei ddeall, neu lle nad yw'n cael ei ystyried yn flaenoriaeth mewn awdurdodau lleol, mae cyllid ar gyfer chwarae'n aml dan bwysau. Nid oes amheuaeth y bydd pwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol yn y dyfodol yn dwysau'r sefyllfa hon.
- 7.10 Ar hyn o bryd, anaml y daw'r cyllid ar gyfer chwarae o gyllidebau craidd awdurdodau lleol gan ei fod yn dod o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys Cymorth, Dechrau'n Deg a Phrosiect Chwarae Plant y Loteri. Teimlir fod hyn yn adlewyrchu'r statws isel sy'n gysylltiedig â chwarae.
- 7.11 Mae'r datblygiadau o ran isadeiledd chwarae a ariennir gan y Gronfa Loteri FAWR yn gyfle unigryw i ddatblygu strwythurau hyfforddiant chwarae lleol. Dylai cynaliadwyedd y rhwydweithiau hyn fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad wrth roi cymorth i chwarae a'r gweithlu chwarae.

## Argymhellion

- Mae angen i arweiniad ar y ddyletswydd newydd yn y Mesur Plant a Theuluoedd gyflwyno diffiniad diamwys o ddigonolrwydd chwarae a phwysleisio pwysigrwydd nid dim ond cydnabyddiaeth a chymorth priodol i chwarae o fewn awdurdodau lleol, ond hefyd y rôl y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei chyflawni wrth gynnal y gweithlu chwarae – ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.
- Dylai fod rôl gan Uned Cefnogi Partneriaethau CLILC o ran newid agweddau tuag at chwarae o fewn awdurdodau lleol yn barod ar gyfer y dyletswyddau newydd.
- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymchwilio i ffyrdd y gellir parhau â'r prosiectau isadeiledd lleol i ddarparu sylfaen ar gyfer cwrdd ag anghenion datblygu'r gweithlu chwarae ar lefel ranbarthol. Mae'r prosiectau hyn yn ddelfrydol ar gyfer dwyn ynghyd awdurdodau lleol, cyflogwyr, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith i gydlynu'r drefn leol ar gyfer cyflenwi hyfforddiant chwarae.

## **Anghenion y gweithlu yn awr ac yn y dyfodol**

- 7.12 Mae angen i asesiad o anghenion Hyfforddiant Chwarae nid yn unig roi ystyriaeth i anghenion cyfredol ond mae angen iddo hefyd asesu sut allai'r sector chwarae edrych yn y dyfodol yng ngoleuni newidiadau a achosir gan y Mesur Plant a Theuluoedd a Rhaglen Chwarae Plant y Gronfa Loteri FAWR. Bydd datblygu gweithlu plant a phobl ifanc mwy integredig hefyd yn pennu anghenion y sector o ran hyfforddiant a chymwysterau.
- 7.13 Mae gwaith chwarae'n faes datblygol nad yw'n meddu ar nifer o'r nodweddion sy'n diffinio proffesiynau eraill e.e. rheoleiddio proffesiynol, corff proffesiynol, mynediad ar lefel gradd. Eto mae gweithwyr chwarae eu hunain yn teimlo'u bod yn broffesiynol ond nad ydynt yn cael eu cydnabod felly – yn enwedig gan weithwyr proffesiynol eraill ar draws y gweithlu Plant a Phobl Ifanc. Mae gweithwyr chwarae'n teimlo bod y diffyg dealltwriaeth ymysg cydweithwyr ac yn y drefn o weinyddu llywodraeth leol ynghyd â'r diffyg cydnabyddiaeth i gymwysterau gwaith chwarae gan gyrff rheoleiddio, yn arwain at roi gwerth isel ar chwarae a gwaith chwarae.
- 7.14 Er bod gweithwyr chwarae eu hunain yn teimlo bod gwaith chwarae'n yrfa werth chweil, mae cyfleoedd i greu gyrfa'n brin iawn. Mae'r diffyg gwaith llawn-amser, y tâl gwael, y diffyg cydnabyddiaeth a'r cyllid ansicr oll yn faterion sy'n effeithio ar ddatblygiad gyrfa.
- 7.15 Mae cyflogwyr yn ei chael yn anodd recriwtio gweithwyr chwarae o ansawdd am nifer o resymau tebyg, ond maent hefyd yn cael anawsterau derbyn ceisiadau gan bobl â chymwysterau gwaith chwarae. Ar gyfer gwasanaethau a

reoleiddir gan AGGCC, mae hyn yn arwain at sefyllfa lle mae cyflogwyr yn derbyn gweithwyr â chymwysterau gofal plant, ond heb lawer o hyfforddiant chwarae. Mae cyflogwyr o'r farn nad yw pobl ifanc sy'n paratoi i ymuno â'r farchnad lafur yn cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ynghylch gwaith chwarae fel gyrfa.

- 7.16 O'u cymharu â'r boblogaeth gyfan, mae pobl sy'n gweithio ym myd chwarae wedi derbyn addysg ar lefel uwch na'r boblogaeth yn gyffredinol er bod y rheiny sydd wedi derbyn addysg ar lefel uwch yn tueddu i fod mewn rolau datblygu chwarae neu reoli.
- 7.17 Mae cysylltiad agos rhwng y galw am hyfforddiant gwaith chwarae a'r cyflenwad o swyddi gwaith chwarae. Mae pobl yn tueddu i beidio â dilyn llwybr hyfforddiant galwedigaethol ym myd chwarae oni bai eu bod eisoes yn cael eu cyflogi fel gweithiwr chwarae. Ar ben hynny, gan nad oes dull cyffredin o sefydlu gweithwyr chwarae ledled Cymru, mae'n anochel y bydd hyn yn arwain at amrywiad yn ansawdd y ddarpariaeth chwarae. Yn arbennig, mae mwy a mwy o weithwyr chwarae mewn lleoliadau all-ysgol yn derbyn ychydig iawn o hyfforddiant chwarae ac maent yn aml â diffyg dealltwriaeth am egwyddorion sylfaenol gwaith chwarae.
- 7.18 Mae cyswllt annatod rhwng cyfradd derbyn hyfforddiant chwarae ar y naill law a chyllid ar y llaw arall gan mai ychydig o gyflogwyr sy'n rhoi cyllid i gyflogeion hyfforddi trwy lwybrau galwedigaethol. Yn wahanol i'r dynamig arferol lle mae argaeledd hyfforddiant trwy, er enghraifft, golegau neu ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith, yn seiliedig ar y galw yn y sector, mae'r galw am waith chwarae'n gysylltiedig â'r cyflenwad o gyrsiau fforddiadwy a hygyrch. Yn arbennig, caiff y sector all-ysgol ei amlygu fel un â mynediad gwael at gyfleoedd hyfforddiant chwarae.
- 7.19 Yn ogystal â hyfforddiant sy'n arwain at gymwysterau galwedigaethol, mae llawer o alw ymhlith gweithwyr chwarae am hyfforddiant seiliedig ar faterion neu hyfforddiant statudol. Mae argaeledd hyfforddiant o'r fath yn amrywio ledled Cymru.
- 7.20 Bydd newidiadau yn y galw am hyfforddiant gwaith chwarae i gyflawni'r ddyletswydd newydd a osodir yn y Mesur yn dibynnu ar yr arweiniad a roddir i awdurdodau lleol ar ddiffinio 'digonolrwydd chwarae'. Os defnyddir dehongliad eang iawn sy'n ystyried chwarae fel mater trawsbynciol, yna bydd cynnydd sylweddol yn y galw am hyfforddiant chwarae sydd wedi'i dargedu at weithwyr proffesiynol nad ydynt yn gweithio'n benodol yn y sector chwarae. Mae prosiect y Gronfa Loteri FAWR hefyd yn debygol o gynyddu'r galw am hyfforddiant chwarae analwedigaethol. Er mwyn cyllido hwn bydd angen datblygu hyfforddiant priodol ac isadeiledd o hyfforddwyr lleol profiadol.

## Argymhellion

- Dylai Llywodraeth y Cynulliad hysbysu AGGCC mai'r cymwysterau sy'n briodol o safbwynt rheoleiddio dan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant mewn lleoliadau all-ysgol a lleoliadau chwarae mynediad agored yw, yn bennaf, y rheiny a nodir gan SkillsActive yn y *Rhestr o Gymwysterau a Dderbynnir*, ac yn ail, y rheiny a nodir gan Gyngor Gofal Cymru ar gyfer *Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar*.
- Dylai'r Llywodraeth bennu nod ar gyfer y tymor hirach, sef ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n gweithio gyda phlant dros 15 oed mewn lleoliadau rheoleiddiedig feddu ar gymhwyster priodol mewn gwaith chwarae neu ddyfarniad trosiannol mewn chwarae.
- Dylai SkillsActive gael cymorth i ddatblygu Cofrestr wirfoddol o Weithwyr Gwaith Chwarae Proffesiynol yng Nghymru. Gallai cofrestr helpu i sicrhau bod ansawdd gwaith chwarae'n cael ei gynnal wrth i'r gweithlu ehangu. Byddai hefyd yn annog cyflogwyr i recriwtio staff sy'n darparu'r cyfleoedd chwarae gorau posib.
- Dylid cefnogi'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae yn ei gwaith gyda Gyrfa Cymru i godi proffil gwaith chwarae fel gyrfa.
- Dylai'r Llywodraeth fynd i'r afael â'r anghysondeb o ran cyllid ar gyfer Gwaith Chwarae mewn ffordd strategol. Mae angen gwneud hyn ar ddwy lefel; yn gyntaf, cyllid i alluogi ymarferwyr i gael mynediad at hyfforddiant presennol; ac yn ail, cyllid i'w gwneud yn bosib datblygu cymwysterau a hyfforddiant newydd y mae'u hangen i ymateb i heriau dysgu cymunedol a thraws-sector a fydd yn cael eu creu gan y Mesur.
- Mae gallu'r sector i gyllido hyfforddiant yn gyfyngedig iawn gan nad oes cyllid gan y rhan fwyaf o gyflogwyr ar gyfer datblygu'r gweithlu. O ystyried y ddyletswydd newydd a osodir yn y Mesur Plant a Theuluoedd, mae achos cryf o blaid darparu cyllid craidd i ddatblygu'r gweithlu. Byddai argaeledd cyllid wedi'i ddiogelu i'r sector gwaith chwarae'n gwneud cyfraniad sylweddol tuag at wella'i allu i gymryd y llyw o ran rhaglenni datblygu'r gweithlu, hyfforddiant a chymwysterau.
- Pe trefnid fod cyllid canolog ar gael, gellid ystyried bod Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant (ETS) Cymru mewn sefyllfa ddelfrydol i gyflawni rôl estynedig fel corff lletyol posib. Mae'n bwyllgor traws-sector sefydledig ym meysydd gwaith chwarae, gwaith ieuenctid a datblygu cymunedol, a allai ddosbarthu grantiau i'r sector yn briodol. Mae cysylltu ei rôl gyfredol (pennu safonau a sicrhau ansawdd) â chyllid yn ei roi mewn sefyllfa arbennig o dda i gyflawni deilliannau o ansawdd.

## **Modelau hyfforddiant chwarae cyfredol**

- 7.21 Mae'r rhan fwyaf o hyfforddiant gwaith chwarae yng Nghymru naill ai ar gyfer cymwysterau galwedigaethol neu ddatblygiad proffesiynol parhaus a all arwain at gymhwyster neu beidio.
- 7.22 Mae'r mwyafrif o'r hyfforddiant galwedigaethol sydd ar gael yng Nghymru'n hyfforddiant ar Lefel 2 neu Lefel 3 trwy'r llwybr Diploma neu NVQ. Ar Lefel 2, mae Diplomau ar gael yn fwyaf cyffredin naill ai trwy CACHE neu gwrs P<sup>3</sup> a ddyfernir gan SQA. Ar Lefel 3, Diploma CACHE yw'r llwybr hyfforddiant mwyaf cyffredin i ennill cymhwyster. Mae P<sup>3</sup> yn gymhwyster sydd newydd gael ei ddatblygu, sy'n benodol i Gymru ac sydd i'w weld yn well am ddiwallu anghenion gweithwyr chwarae tymhorol dros dro sy'n gweithio'n aml ar gynlluniau chwarae yn ystod gwyliau'r haf. Mae gan gyflogwyr safbwyntiau gwahanol am rinweddau cymharol llwybrau cymwysterau CACHE a P<sup>3</sup> ar Lefel 2, ond ansawdd yr hyfforddwyr yw'r prif bryder ymhlith cyflogwyr ac ymarferwyr.
- 7.23 Ar Lefel 3, dewis cyfyngedig o hyfforddiant cymwysterau sydd a dywedodd nifer o gyflogwyr y byddent yn croesawu datblygiad cymhwyster P<sup>3</sup> ar Lefel 3.
- 7.24 Mae ystod eang o DPP yn digwydd yn y sector Chwarae ond ymddengys fod mynediad yn aml yn dibynnu ar argaeledd cyllid naill ai trwy gyflogwyr neu gan awdurdodau lleol trwy Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc Lleol. Mae'r cyfleoedd ar gyfer DPP ar lefel uwch hefyd yn gyfyngedig iawn. Mae DPP yn allweddol bwysig i nifer o weithwyr chwarae tymhorol nad ydynt o bosib yn derbyn hyfforddiant achrededig ond sydd, trwy becynnau sefydlu a DPP arall, yn cael peth gwybodaeth sylfaenol. Mae cryn dipyn o'r DPP a dderbynnir gan weithwyr chwarae yn y sector all-ysgol wedi'i fwriadu'n fwy ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant ac nid yw wastad yn briodol.
- 7.25 Mae peth hyfforddiant DPP traws-sector mewn gwaith chwarae'n cael ei ddatblygu mewn ardaloedd lleol, a hwnnw'n hyfforddiant y gall gweithwyr mewn sectorau eraill gael mynediad ato. Bydd datblygu'r elfen hon o hyfforddiant yn bwysig wrth weithredu'r Mesur Plant a Theuluoedd.

### **Argymhellion**

- Mae amrywiaeth y gweithlu chwarae'n golygu bod angen ystod o lwybrau hyfforddiant a chymwysterau. Mae angen cymorth parhaus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu cymwysterau a hyfforddiant sy'n mynd i gwrdd ag anghenion sector sy'n ehangu. Dylai hyn gynnwys cymorth i ddatblygu P<sup>3</sup> ymhellach – yn enwedig datblygu isadeiledd hyfforddiant (hyfforddwyr sy'n gymwys yn alwedigaethol). Gallai hyn olygu bod angen cyfrannu adnoddau yn y byrdymor nes bod y



cymwysterau wedi cael eu prif-ffrydio ac yn cael eu cyflenwi trwy golegau a chan ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith.

- Mae angen buddsoddi er mwyn datblygu pecynnau hyfforddiant traws-sector a fydd yn sefydlu egwyddorion chwarae da ar draws y gweithlu ehangach mewn ymateb i'r ddyletswydd chwarae a nodir yn y Mesur Plant a Theuluoedd.
- Dylai canllawiau i awdurdodau lleol mewn perthynas â'r Mesur nodi'n glir yr angen am DPP o ansawdd da ar gyfer y gweithlu Chwarae a sut y dylid cyflenwi a chyllido hyn.
- Mae'r sector all-ysgol mewn perygl o gael ei ddatgilio mewn gwaith chwarae gan fod bron dim cyfleoedd i ymarferwyr gael mynediad at hyfforddiant tuag at gymwysterau chwarae. Mae'r broblem hon yn arbennig o ddifrifol ar Lefel 3. Dylai'r Llywodraeth weithio gydag AGGCC i ddarparu gwell canllawiau sy'n annog ymarferwyr i dderbyn hyfforddiant gwaith chwarae yn hytrach na hyfforddiant yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant – gan felly gynyddu'r galw, galw y dylai darparwyr hyfforddiant ymateb iddo .
- Mae angen datblygu pecynnau o DPP ar gyfer y gweithlu plant a phobl ifanc ehangach ar nifer o lefelau i ategu'r broses o weithredu'r Mesur.
- Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd rhaglenni a ddatblygwyd dan raglen y Gronfa Loteri FAWR, bydd angen cyfleoedd newydd ar gyfer hyfforddiant chwarae mewn cymunedau a bydd angen cymorth canolog i'w datblygu.

### **Argaeledd a Hygyrchedd Hyfforddiant a Chymwysterau Chwarae**

- 7.26 Mae argaeledd a hygyrchedd hyfforddiant a chymwysterau mewn chwarae'n ddibynnol ar; nifer y swyddi mewn gwaith chwarae; y drefn reoleiddio; argaeledd hyfforddiant ac, yn olaf, cost yr hyfforddiant. Mae felly'n anodd iawn mesur faint o hyfforddiant gwaith chwarae sy'n cael ei gyflenwi yng Nghymru.
- 7.27 Nid yw hyfforddiant gwaith chwarae ar y cyfan yn cael ei gyflenwi gan ddarparwyr hyfforddiant prif ffrwd yng Nghymru. O'r 24 o golegau AB yng Nghymru, dim ond 6 sy'n cyflenwi hyfforddiant gwaith chwarae mewn ffordd weithredol, ynghyd â dim ond 2 neu 3 o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith. Dim ond mewn 3 choleg AB yng Nghymru y mae cymhwyster Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae ar gael. Mae hyn yn arwain at sefyllfa lle mae ymarferwyr yn dilyn cyrsiau gofal plant am resymau sy'n ymwneud â rheoleiddio sydd felly'n datgilio'r gweithlu chwarae ac yn effeithio ar ansawdd y profiadau chwarae ar gyfer plant.
- 7.28 Mae'r swm mawr o hyfforddiant a ddarparwyd gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn y cyfnod cyn y newidiadau rheoleiddiol yn 2008, er ei fod wedi arwain at gymwysterau i nifer fawr o weithwyr chwarae yn y sector all-ysgol, i'w weld

fel pe bai wedi achosi i ddarparwyr hyfforddiant prif-ffrwd roi'r gorau i gyflenwi hyfforddiant gwaith chwarae. Gan nad yw CCKC yn derbyn cyllid ESF mwyach i gyflenwi'r un faint o hyfforddiant, mae staff mewn clybiau all-ysgol yn ei chael bron yn amhosib cael mynediad at gyrsiau gwaith chwarae.

- 7.29 Chwarae Cymru yw'r prif ddarparwr arall sy'n cynnig hyfforddiant gwaith chwarae. Er ei bod hefyd yn ganolfan CACHE, yn fwy diweddar mae Chwarae Cymru wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu a chyflenwi hyfforddiant P<sup>3</sup>. Yr isadeiledd sy'n cael ei ddatblygu trwy P<sup>3</sup> yw'r agwedd bwysicaf mwy na thebyg gan fod rhwydwaith o hyfforddwyr sy'n fedrus ac yn gymwys yn alwedigaethol wedi cael ei sefydlu.
- 7.30 Mae cyrsiau Addysg Uwch, un o'r llwybrau posib ar gyfer DPP trwy raglenni gwaith chwarae, yn gyfyngedig yng Nghymru. Ar hyn o bryd, Prifysgol Glyndŵr sy'n cyflenwi'r unig raglen BA (Anrh) mewn Gwaith Chwarae yng Nghymru.
- 7.31 Dywedodd cyflogwyr bod ansawdd yr hyfforddiant yn gallu bod yn anghyson ac weithiau'n wael, yn enwedig lle nad yw cymwysterau'n cael eu hachredu. Gall hyn effeithio ar y sector gwaith chwarae'n lleol o ran amgylcheddau chwarae gwael.
- 7.32 Mae'r rhwystrau eraill i hyfforddiant yn cynnwys pellter o ganolfannau hyfforddi, amseriad y cyrsiau, a chysiau'n cael eu canslo am na chyrraeddwyd yr isafswm o ran nifer y cyfranogwyr. Roedd cymhwysedd hyfforddwyr yn fater a godwyd dro ar ôl tro gan gyflogwyr ac ymarferwyr.
- 7.33 Mae diffyg gwybodaeth ymhlith cyflogwyr a gweithwyr chwarae ynghylch hyfforddiant gwaith chwarae. Mae'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae'n dechrau dod yn adnabyddus ac mae'n prysur ddod yn adnodd a ddefnyddir gan y sector, ond mae ganddi gryn dipyn o ffordd i fynd o hyd tuag at gwrdd ag anghenion gweithwyr chwarae.

### Argymhellion

- Yn yr hirdymor, dylai hyfforddiant mewn Gwaith Chwarae gael ei brifffrydio, gyda'r cyllid ar gyfer gwaith chwarae'n dod trwy lwybrau arferol APADGOS a'r hyfforddiant yn cael ei gyflenwi gan ddarparwyr Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar waith. Yn y byrdymor fodd bynnag, mae angen ymyriadau i ysgogi galw gan hefyd gynnal lefel sylfaenol o gyflenwad.
- Mae angen ysgogi'r galw am hyfforddiant gwaith chwarae trwy newidiadau yn y rheoliadau ar gyfer Gofal Dydd a Gwarchod Plant sydd, yn y byrdymor, yn cydnabod cymwysterau gwaith chwarae fel rhai dilys, ac sydd yn yr hirdymor yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr chwarae mewn lleoliadau rheoleiddiedig feddu ar gymwysterau gwaith chwarae.

- Mae angen i'r galw am hyfforddiant ddeillio hefyd o arweiniad da i awdurdodau lleol o ran eu rôl hwy wrth gynnal y gweithlu chwarae dan y Mesur Plant a Theuluoedd.
- Er bod diffyg galw wedi arwain at ostyngiad yn y cyflenwad o hyfforddiant gwaith chwarae, mae diffyg hyfforddwyr cymwys, methiant i hyrwyddo cyrsiau'n ddigonol a diffyg gwybodaeth yn dwysau'r sefyllfa. Dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i roi cymorth i'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae yn ystod y cyfnod allweddol bwysig hwn o ehangu er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn. Mae gan y Ganolfan Genedlaethol ran i'w chwarae hefyd o safbwynt arolygu'r broses o ailgysylltu'r cyflenwad o hyfforddiant gwaith chwarae â'r galw amdano ledled Cymru – gan gyflawni rôl gydlynu gyda'r prosiectau isadeiledd lleol, AB a dysgu seiliedig ar waith, cyflogwyr, APADGOS a'r sefydliadau cenedlaethol.

### **Fframwaith Cymwysterau Gwaith Chwarae**

7.34 Mae angen i fframwaith cymwysterau Gwaith Chwarae gynnwys pob lefel o'r cyfnod sefydlu sylfaenol i raddau uwch. Er bod SkillsActive wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Gofal Cymru ac APADGOS i sefydlu *Rhestr o Gymwysterau a Dderbynnir ar gyfer y Gweithlu Chwarae yng Nghymru*, mae hyn at ddibenion gofynion rheoleiddiol ac felly nid yw ond yn cynnwys lefelau 2 a 3.

7.35 Er mwyn cwrdd â'r dyheadau ym Mholisi Chwarae Llywodraeth y Cynulliad, mae angen fframwaith sy'n cydnabod llwybrau o gymwysterau Lefel Mynediad i gymwysterau Lefel 6 neu 7, yn unol â Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Bydd angen i'r fframwaith hefyd gydnabod amrywiaeth y gweithlu chwarae wrth ddarparu cyfleoedd dysgu digonol ar gyfer y rheiny â rolau gwahanol mewn ystod o leoliadau; darparu cyfleoedd ar gyfer trosi i waith chwarae o sectorau eraill; a chynnwys modiwlau cyffredin y gall gweithwyr proffesiynol ar draws y gweithlu plant a phobl ifanc eu defnyddio i dderbyn hyfforddiant mewn egwyddorion ac arfer mewn gwaith chwarae.

### **Argymhellion**

- Dylai Llywodraeth y Cynulliad weithio gyda phartneriaid – gan gynnwys SkillsActive – i gyhoeddi fframwaith cymwysterau cynhwysfawr a all gynnal datblygiad y gweithlu a chysylltu â fframweithiau cymwysterau integredig sydd wrthi'n datblygu ar gyfer y gweithlu plant a phobl ifanc.

## Atodiad 1: Cymwysterau a Dderbynnir ar gyfer Gweithwyr Chwarae 2009-2010 (SkillsActive)

Y cymwysterau canlynol ar **Lefel 2** yw'r cymwysterau a dderbynnir ar gyfer gweithio mewn rolau dan oruchwyliaeth mewn Gwaith Chwarae

Cymhwyster Galwedigaethol a Dderbynnir  (yn gymwys i ymarfer)	Cymhwyster Rhagflaenol  (Yn dal i fod yn gyfoes, yn gymwys i ymarfer)	Enghreifftiau o Swyddi	Enghreifftiau o Leoliadau	Cymhwyster Galwedigaethol  (ddim yn gymwys i ymarfer)
<p><b>Diploma mewn Gwaith Chwarae</b></p> <p><b>Lefel 2 (CITY AND GUILDS)</b></p> <p><b>NVQ mewn Gwaith Chwarae Lefel 2 (CITY &amp; GUILDS, CACHE, EDI, EDEXCEL)</b></p> <p><b>Diploma mewn Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith Lefel 2 (SQA) (ar gael yng Nghymru'n unig)</b></p>		<p>Gweithiwr chwarae cynorthwyol</p> <p>Gweithiwr chwarae</p> <p>Gweithiwr mewn cynllun chwarae yn y gwyliau</p> <p>Gweithiwr chwarae all-ysgol</p> <p>Gweithiwr chwarae antur</p> <p>Ceidwad chwarae</p>	<p>All-ysgol</p> <p>(gan gynnwys clybiau brecwast, cinio, ar ôl ysgol ac yn y gwyliau (3-16 oed))</p> <p>Cynlluniau chwarae yn y gwyliau</p> <p>Meysydd chwarae antur</p> <p>Canolfannau chwarae mewn ysgolion a rhai cymunedol</p> <p>Parciau a meysydd chwarae</p> <p>Prosiectau chwarae symudol</p> <p>Prosiectau chwarae arbenigol</p> <p>Gwersylloedd haf</p>	<p>Dyfarniad mewn Gwaith Chwarae Lefel 2 (CACHE)</p> <p>Tystysgrif mewn Gwaith Chwarae Lefel 2 (CACHE, CITY AND GUILDS)</p> <p>Tystysgrif mewn Ymarfer Gwaith Chwarae Cynorthwyol Lefel 2 (CACHE)</p> <p>Dyfarniad mewn Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith Lefel 2 (SQA) (ar gael yng Nghymru'n unig)</p> <p>Tystysgrif mewn Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith Lefel 2 (SQA) (ar gael yng Nghymru'n unig)</p>

Y cymwysterau canlynol ar **Lefel 3** yw'r cymwysterau a dderbynnir ar gyfer gweithio mewn rolau dan oruchwyliaeth mewn Gwaith Chwarae

Cymhwyster Galwedigaethol a Dderbynnir  (yn gymwys i ymarfer)	Cymhwyster Rhagflaenol	Enghreifftiau o Swyddi	Enghreifftiau o Leoliadau	Cymhwyster Galwedigaethol  (ddim yn gymwys i ymarfer)
<p><b>Diploma mewn Gwaith Chwarae Lefel 3 (CACHE, CITY AND GUILDS)</b></p> <p><b>NVQ mewn Gwaith Chwarae Lefel 3 (CITY &amp; GUILDS, CACHE, EDI, EDEXCEL)</b></p> <p><b>Dyfarniad mewn Gwaith Chwarae i Weithwyr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EDEXCEL, CACHE, CITY &amp; GUILDS)</b></p> <p><b>Dyfarniad yn y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i Weithwyr Chwarae Lefel 3 (CACHE, CITY &amp; GUILDS, EDEXCEL)</b></p> <p><b>Datblygu Chwarae Lefel 3 (CACHE, CITY &amp; GUILDS)</b></p>		<p>Uwch weithiwr chwarae</p> <p>Gweithiwr chwarae</p> <p>Cydlynedd cynlluniau chwarae yn y gwyliau</p> <p>Gweithiwr chwarae all-ysgol</p> <p>Gweithiwr chwarae/rheolwr chwarae antur</p> <p>Ceidwad Chwarae</p> <p>Ceidwad Chwarae Arweiniol</p>	<p>All-ysgol</p> <p>(gan gynnwys clybiau brechwast, cinio, ar ôl ysgol ac yn y gwyliau (3-16 oed))</p> <p>Cynlluniau chwarae yn y gwyliau</p> <p>Meysydd chwarae antur</p> <p>Canolfannau chwarae mewn ysgolion a rhai cymunedol</p> <p>Parciau a meysydd chwarae</p> <p>Prosiectau Chwarae Symudol</p> <p>Prosiectau chwarae arbenigol</p> <p>Gwersylloedd haf</p>	<p>Dyfarniad mewn Gwaith Chwarae Lefel 3 (CACHE)</p> <p>Tystysgrif mewn Gwaith Chwarae Lefel 3 (CACHE, CITY AND GUILDS)</p> <p>Tystysgrif mewn Ymarfer Gwaith Chwarae Cynorthwyol Lefel 3 (CACHE)</p> <p>Diploma mewn Ymarfer Gwaith Chwarae Cynorthwyol Lefel 3 (CACHE)</p>